



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Cod Ymarfer er Lles Da Byw: Gwartheg



Mawrth 2010



ISBN 978 0 7504 4487 3

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2010

CMK-22-310-18257

E6790910

Nodyn

Cafodd y Cod hwn, a'i baragraffau 1 i 165, ei baratoi ar ôl ymgynghori arno a'i gyhoeddi yn unol ag adrannau 14 ac 16 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 sy'n caniatáu'r Cynulliad Cenedlaethol i gynhyrchu codau o argymhellion er lles da byw ac i gyhoeddi'r codau hynny. Yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Gweinidogion Cymru sydd i arfer y pwerau a roddir gan adrannau 14 ac 16.

Hysbysir y Comisiwn Ewropeaidd am yr argymhellion hyn yn unol â Chyfarwyddeb 98/34/EC (1998 O.J L204).

Cynnwys

Rhagair

Tudalennau 4-5

Cyflwyniad

Tudalen 6, paragraffau 1-6

Adran 1 - Argymhellion ar gyfer yr holl wartheg

Stocmonaeth

Cyffredinol

Tudalen 7, paragraffau 7-12

Archwilio

Tudalen 8, paragraffau 13-15

Trafod

Tudalen 9, paragraffau 16-20

Tagio

Tudalen 10, paragraffau 21-24

Clipio

Tudalen 11, paragraff 25

Iechyd

Cyffredinol

Tudalen 12, paragraffau 26-29

Sgorio cyflwr

Tudalen 13, paragraff 30

Bioddiogelwch

Tudalen 13, paragraffau 31-33

Cloffni

Tudalen 14, paragraffau 34-36

Mastitis

Tudalen 14, paragraffau 37-38

Parasitiaid allanol a heintiau ffyngaudd

Tudalen 15, paragraff 39

Parasitiaid mewnol

Tudalen 15, paragraff 40

Cyfarpar dosio a brechu

Tudalen 15, paragraffau 41-43

Clefydau hysbysadwy

Tudalen 16, paragraff 44

Anifeiliaid sâl ac anafus

Tudalen 16, paragraffau 45-47

Anifeiliaid gorweiddiog

Tudalen 17, paragraffau 48-51

Lladd mewn argyfwng a lladd di-boen

Tudalen 18, paragraffau 52-54

Cadw cofnodion

Tudalen 18, paragraffau 55-57

Bwyd, dŵr a sylweddau eraill

Cadw dan-do

Cyffredinol
Buarthau gwellt
Ciwbiclau
Beudai
Gaeafu Gwartheg yn yr Awyr Agored
Lwfansau gofod
Awyru
Goleuo
Cyfarpar
Foltedd Isel mewn parlyrau godro

Tudalen 21, paragraffau 58-64

Tudalen 23, paragraffau 65-69
Tudalen 24, paragraffau 70-72
Tudalen 24, paragraffau 73-76
Tudalen 25, paragraffau 77-80
Tudalen 26, paragraffau 81-86
Tudalen 27, paragraff 87
Tudalen 27, paragraffau 88-90
Tudalen 27, paragraff 91
Tudalen 28, paragraff 92
Tudalen 29, paragraff 93

Rheoli

Cyffredinol
Ffensys a pherthi/gwrychoedd
Chwyn niweidiol
Cynllun wrth gefn

Tudalen 30, paragraffau 94-98
Tudalen 30, paragraffau 99-100
Tudalen 31, paragraff 101
Tudalen 31, paragraff 102
Tudalen 32, paragraffau 103-105

Tân ac argyfyngau eraill

Adran 2 -Argymhellion penodol Gwartheg cyflo a bwrw lloi

Magu lloi

Archwilio
Lloi sâl ac anafus
Bwyd, dŵr a sylweddau eraill
Llety
Teynnau
Goleuo
Glanhau a diheintio
Lloriau
Sarn (gwellt) a manau gorwedd
Symud a gwerthu lloi

Tudalen 33, paragraffau 106-113

Tudalen 35, paragraffau 115-117
Tudalen 36, paragraff 118
Tudalen 36, paragraffau 119-127
Tudalen 38
Tudalen 39, paragraff 128
Tudalen 39, paragraff 129
Tudalen 39, paragraff 130
Tudalen 39, paragraff 131
Tudalen 40, paragraffau 132-135
Tudalen 41, paragraffau 136-137

Anffurfio

Sbaddu
Dadimpio a digornio
Tethi ychwanegol

Tudalen 42, paragraff 138
Tudalen 42, paragraffau 139-141
Tudalen 43, paragraff 142

Anifeiliaid magu

Bridio	Tudalen 44, paragraffau 143-144
Archwilio	Tudalen 44, paragraff 145
Rheoli	Tudalen 45, paragraffau 146-147
Serfio Naturiol - teirw	Tudalen 45, paragraffau 148-149
Ffrwythloni artiffisial (tarw potel) a throsglwyddo embryo	Tudalen 45, paragraffau 150-152
Sganio uwchsain	Tudalen 46, paragraff 153
Llociau teirw	Tudalen 46, paragraffau 154-155

Buchod godro

Cyffredinol	Tudalen 48, paragraffau 156-159
Godro	Tudalen 48, paragraffau 160-167
Godrwy robot	Tudalen 49, paragraff 168

Rhagair

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r cod; mae'n esbonio yn hytrach rôl y cod a'r ystyriaethau eang y cafodd eu seilio arnynt. Nid yw'r testun cyfreithiol yn y blychau llwyd drwy'r ddogfen hon yn rhan o'r cod chwaith ond mae'n dangos y safbwynt cyfreithiol. Y gyfraith fel y mae ar ddyddiad cyhoeddi neu argraffu'r cod hwn yw'r testun yn y blychau (trowch at y cefn i gael yr wybodaeth hon). Dylech fod yn ymwybodol y gall unrhyw ofynion cyfreithiol a ddyfynnir fan hyn newid - dylech gadarnhau eu bod yn ddatganiadau cywir o'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd.

Mae rheoliad 6 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070(Cy.264)) yn darparu bod:

(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir -

- a) Peidio â gofalu am yr anifail onid yw'n gyfarwydd â'r cod ymarfer perthnasol a bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a
- b) yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw person a gyflogir ganddo, neu a gymerir i weithio ganddo, yn gofalu am yr anifail oni bai bod y person arall hwnnw -
 - (i) yn gyfarwydd ag unrhyw god ymarfer perthnasol;
 - (ii) bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a
 - (iii) ei fod wedi cael hyfforddiant ac arweiniad ar y cod hwnnw.

Mae adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn darparu;

(2) Yn yr adran hon, ystyr "cod ymarfer perthnasol" ("*relevant code of practice*") yw cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 neu god ymarfer statudol a gyhoeddwyd o dan adran 3 o ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 mewn perthynas â'r rhywogaeth benodol o anifeiliaid a ffermir y mae'r person yn gofalu amdanynt.

Mae person yn cyflawni trosedd pe bai gweithred ganddo neu fethiant ganddo i weithredu yn peri bod anifail yn dioddef pe bai'n gwybod neu y dylai'n rhesymol fod yn gwybod y byddai ei weithred neu ei fethiant i weithredu wedi cael yr effaith honno neu y byddai'n debygol o fod wedi cael yr effaith honno. Er nad yw torri un o ddarpariaethau'r cod yn dramgwydd ynddo'i hun, fe all er hynny gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth sy'n tueddu i gadarnhau bod unrhyw un a gyhuddir o'r tramgwydd o beri poen neu ddioddefaint diangen yn euog o dan y Ddeddf (Adran 14 (4)).

Mae'r Cod yn anelu at annog pawb sy'n gofalu am anifeiliaid fferm i arfer y safonau hwsmona uchaf. Heb stocmonaeth dda, mae'n amhosibl diogelu lles anifeiliaid yn ddigonol. Bydd y cod hwn yn helpu ceidwad y stoc i fodloni'r safonau lles angenrheidiol.

Ystyrir lles gwartheg o fewn fframwaith a luniwyd gan Gyngor Lles Anifeiliaid Fferm. Y 'Pum Rhyddid' yw'r enw ar y fframwaith hwn. Mae'r 5 Rhyddid yn sylfaen resymegol ar gyfer asesu lles o fewn unrhyw system hwsmona, ynghyd â'r camau sy'n angenrheidiol i ddiogelu lles anifeiliaid o fewn cyfyngiadau diwydiant da byw effeithlon.

Dyma'r Pum Rhyddid:-

1. **RHYDDID RHAG NEWYN A SYCHED**

- drwy allu mynd yn hwylus at ddŵr ffres a chael deiet i gynnal iechyd ac egni.

2. **RHYDDID RHAG ANGHYSUR**

- drwy ddarparu amgylchedd priodol gan gynnwys cysgod a man gorffwys cysurus.

3. **RHYDDID RHAG POEN, ANAF NEU GLEFYD**

- drwy eu hatal neu drwy eu diagnosio a'u trin yn gyflym.

4. **RHYDDID I YMDDWYN YN NATURIOL**

- drwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni anifeiliaid o'r un fath.

5. **RHYDDID RHAG OFN A DIODDEFANT**

- drwy sicrhau amodau a thriniaeth sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.

Wrth gydnabod y pum rhyddid, dylai'r rhai sy'n gofalu am dda byw ddangos y canlynol:

- cynllunio a rheoli ystyriol a chyfrifol;
- stocmonaeth fedrus, wybodus a chydwybodol;
- dylunio amgylcheddol priodol (er enghraifft, o'r system hwsmona);
- trafod a chludo'r anifeiliaid yn ystyriol; a
- chigydda di-boen.

Wrth ddilyn yr argymhellion sydd yn y Cod hwn, bydd yn eich helpu i gwrdd â'r gofynion traws gydymffurfio o dan Gynllun y Taliad Sengl.

Cyhoeddir y Cod hwn gan Weinidogion Cymru ac mae'n gymwys yng Nghymru yn unig. Mae'n disodli (hefyd o ran Cymru) y rhan honno o'r Cod presennol a gyhoeddwyd yn 2006.

CYHOEDDWDYD Y COD LLES HWN AR 26 Mawrth 2010.

Cyflwyniad

1. Mae'r cod hwn sy'n berthnasol yng Nghymru yn unig yn ymdrin â gwartheg. Mae 'gwartheg' yn golygu unrhyw stoc o deulu'r gwartheg megis buchod neu ychen, ac mae'n cynnwys byfflo a bison. Mae llo yn golygu unrhyw anifail o deulu'r gwartheg sydd o dan chwe mis oed.
2. Mae argymhellion y Cod yn gymwys i wartheg o dan bob system hwsmona. Mae adran 1 o'r cod yn rhoi argymhellion ar gyfer gwartheg o bob oed a math. Mae adran 2 yn ymdrin â'r argymhellion hynny sy'n berthnasol i wartheg o oed mwy penodol (fel lloi) neu i fath penodol o wartheg (fel gwartheg godro). Bydd yr argymhellion hyn yn eich helpu i ddiogelu lles y stoc. Nid yw argymhellion y Cod yn rhestr gyflawn ac nid eu bwriad yw cymryd lle cyngor arbenigwyr, megis cyngor milfeddyg.
3. Dylai'r system hwsmona sy'n cael ei defnyddio, a nifer y gwartheg a'r gyfradd stocio a gedwir ar unrhyw un adeg, ddibynnu ar y canlynol:
 - addasrwydd amgylchedd y fferm;
 - faint o anifeiliaid y gall y fferm eu cadw yr un pryd;
 - cymhwysedd ceidwad y stoc; a'r
 - gweithlu sydd ar gael.
4. Mae safonau cyfreithiol ychwanegol ar gyfer cadw gwartheg yn organig. Er hynny, nid oes dim yn y safonau hynny sy'n effeithio ar gyfrifoldebau cyfreithiol ffermwyr organig i ofalu am les eu hanifeiliaid. Dylai unrhyw faterion sy'n ymddangos fel pe baent yn gwrthdaro â safonau organig gael eu trafod gyda'ch corff ardystio organig.
5. Yn gyffredinol, mwya'n y byd yw maint neu gynhyrchiant y fuches, mwya'n y byd o sgiliau a gofal sydd eu hangen i ddiogelu ei lles. Ni ddylid newid hwsmonaeth, cyfarpar na dulliau cynhyrchu heb ystyried effeithiau posibl y newid hwnnw ar les yr anifeiliaid.
6. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch lles anifeiliaid yn gymwys i berchnogion yn ogystal ag i unrhyw un sy'n gofalu am eu gwartheg ar eu rhan, lle bynnag bo'r gwartheg. Gall contract ysgrifenedig fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â hyn yn deall yn glir beth yw eu cyfrifoldebau am les anifeiliaid. Er hynny, bydd y rhwymedigaethau cyfreithiol yn dal i fod yn gymwys, p'un a oes contract yn bodoli ai peidio. Gall agweddau penodol ar hwsmona beryglu iechyd a diogelwch y bobl sydd ar y fferm. Gellir cael cyngor ar y materion hyn gan Arolygydd Diogelwch Amaethyddol Lleol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Adran 1 - Argymhellion ar gyfer yr holl wartheg

Stocmonaeth

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.223)) yn diffinio "ceidwad" fel 'unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid neu â gofal ohonynt p'un ai ar sail dros dro neu barhaol.'

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 1 y Rheoliadau hynny:

Rhaid i anifeiliaid dderbyn gofal gan nifer digonol o staff sy'n meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r hyfedredd proffesiynol priodol.

Cyffredinol

7. Ceidwad y stoc yw'r dylanwad pwysicaf ar les unrhyw fuches o wartheg. Gyda milfeddyg y fuches a, phan fo angen hynny, gyda chynghorwyr technegol eraill, dylai lunio Cynllun Iechyd Anifeiliaid (gweler paragraff 25 am fwy o wybodaeth), a dylent ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn. Dylai'r cynllun hwn nodi gweithgareddau iechyd a hwsmona ar gyfer cylch cynhyrchu'r flwyddyn gyfan, a chynnwys strategaethau i atal neu drin clefydau neu i gyfyngu arnynt. Dylai'r cynllun gynnwys cofnodion y busnes fel y gellir monitro iechyd a lles y fuches.

8. Dylai fod digon o staff selog a chymwys i ofalu am y fuches. Mae angen sicrhau bod y staff llai profiadol yn ymwybodol o anghenion lles y gwartheg ac yn gallu eu diogelu rhag yr holl broblemau a ddisgwylir cyn rhoi unrhyw gyfrifoldeb iddynt. Dylid datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ar y fferm drwy weithio gyda stocmyn medrus sy'n hen lawiau ar y systemau perthnasol. Yn ddelfrydol, dylai'r staff hefyd fynd ar gwrs sy'n cael ei gynnal gan gorff hyfforddi addas sy'n arwain at gymhwyster ffurfiol. Dylai unrhyw weithiwr dan gontract neu weithiwr dros dro fod yn gymwys ac wedi cael ei hyfforddi.

9. Dylai'r ceidwaid fod yn wybodus a bod yn gymwys mewn ystod eang o sgiliau iechyd a lles anifeiliaid, a ddylai gynnwys:

- sgiliau trafod (gweler paragraffau 16-20);
- darparu gofal priodol i wartheg sâl ac anafus (gweler paragraffau 45-47);
- tagio clustiau (gweler paragraffau 21-24);
- atal a thrin achosion sylfaenol neu gyffredin o gloffni (gweler paragraffau 34-36);
- atal parasitiaid mewanol ac allanol a'u trin (gweler paragraffau 39-40);
- rhoi meddyginiaethau drwy chwistrellu neu ddrenio (rhoi moddion hylif i anifail) (gweler paragraff 41-43);

- sbaddu (gweler paragraff 138);
- dadimpio (gweler paragraffau 139-141);
- tynnu tethi ychwanegol oddi ar wartheg godro (gweler paragraff 142); a
- godro (gweler paragraffau 156-168).

10. Mae'n bwysig iawn fod ceidwaid stoc yn gymwys i asesu buwch sy'n dod â llo a'i helpu, os yw hyn yn rhan o'u rôl. Os disgwylir i geidwad y stoc gyflawni tasgau penodol ar y fferm fel tocio carnau, yna dylai gael hyfforddiant priodol. Fel arall, bydd yn ofynnol cael milfeddyg neu, ar gyfer tasgau penodol, gcontractiwr cymwys a hyfforddedig.

11. Mae'n bwysig bod gwartheg, yn enwedig stoc ifanc, yn dod i gysylltiad rheolaidd â cheidwad y stoc. Bydd goruchwyllo a thrafod anifeiliaid yn ofalus yn lleihau eu hofn. Mae angen cynllun wrth gefn ar geidwad y stoc a chyfarpar os bydd angen iddo ddal ac atal anifail sydd wedi bod yn pori mewn system llai dwys nad yw wedi arfer â dod i gysylltiad â phobl (er enghraifft, os bydd angen iddo weld milfeddyg).

12. Os yw'n bosibl, ni ddylid cymysgu grwpiau o anifeiliaid sydd wedi hen ymsefydlu a dylid cadw gwartheg corniog ar wahân i'r gwartheg heb gyrrn.

Archwilio

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- Rhaid i bob anifail a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle bydd eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i weld eu bod mewn cyflwr o lesiant; a
- Rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau heblaw systemau hwsmonaeth y mae eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio ar ysbeidiau digonol i osgoi unrhyw ddiodef.

13. Mae iechyd a lles anifeiliaid yn dibynnu ar iddynt gael eu harchwilio'n rheolaidd. Dylai pob ceidwad stoc fod yn gynefin ag ymddygiad normal gwartheg a dylai wyllo am arwyddion o ofid neu glefyd. I wneud hyn, mae'n bwysig bod gan geidwaid y stoc ddigon o amser:

- i archwilio'r stoc bob dydd;
- i archwilio'r cyfarpar; ac
- i gymryd camau i ymdrin ag unrhyw broblem.

Mae rheolau archwilio manylach ar gyfer lloi (gweler paragraffau 78 a 79).

14. Dylai ceidwad y stoc gadw golwg bob amser am arwyddion o afiechyd mewn gwartheg, sy'n cynnwys:

- llesgedd,
- encilio oddi wrth weddill y fuches;
- ymddygiad anarferol;
- colli graen;
- colli archwaeth at fwyd;
- gostyngiad sydyn yn ei llaeth;
- rhwymedd;
- sgwrio (dolur rhydd);
- ddim yn cnoi cil;
- unrhyw lif o'r ffroenau neu'r llygaid;
- glafoeri mwy nag arfer;
- peswch cyson;
- anadlu'n gyflym neu'n afreolaidd;
- ymddygiad anarferol wrth orffwys;
- gwres;
- cymalau chwyddedig;
- cloffni; a
- mastitis.

15. Dylai ceidwaid y stoc allu rhagweld problemau neu eu hadnabod yn fuan. Ac mor aml â phosibl, dylent allu dweud hefyd beth sy'n bod a datrys y broblem ar unwaith. Os nad yw'r achos yn amlwg, neu os nad yw'r camau a gymerir yn gweithio, dylid galw milfeddyg neu arbenigwr arall i mewn yn ddiymdroi - gall methu â gwneud hynny achosi dioddefaint diangen.

Trafod

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.223)) Atodlen 1, paragraff 30: -

Rhaid peidio â defnyddio cerrynt trydan ar unrhyw anifail er mwyn ei lonyddu.

16. Dylai gwartheg gael eu symud o dan eu pwysau eu hunain, heb i geidwad y stoc na cherbydau na chŵn eu rhuthro. Dylech eu hannog yn dirion - yn enwedig wrth gorneli ac os yw'n llithrig dan draed. Peidiwch â defnyddio gormod o sŵn, cyffro na nerth braich. Peidiwch â phwyso ar na churo unrhyw ran sensitif o'r corff fel y pen neu'r gadair (pwrs). Defnyddiwch unrhyw beth ar gyfer llywio anifeiliaid fel ffon neu beipen bolythen at y diben hwnnw yn unig ac ni ddylai fod ganddi ben miniog na phigog. Mae peipen bolythen yn gallu cleisio o'i defnyddio'n amhriodol ac felly

byddai'n well peidio â'i defnyddio o gwbl. Peidiwch â defnyddio proceri trydan ar wartheg os medrwch. Os ydych yn eu defnyddio, gofalwch fod digon o le i'r anifail fedru symud ymlaen.

17. Dylech bwysu a mesur yn rheolaidd natur, cyflwr a hyd y trac y bydd eich gwartheg yn cerdded arno wrth fynd o'u llety neu barlwr godro i'r caeau.

Dylech ystyried:

- bylchau caeau;
- y traciau; a'r
- tir o gwmpas cafnau dŵr;

ichi allu cymryd y camau priodol i osgoi eu hanafu neu gloffni.

18. Gofalwch nad yw'r lloriau congrid a'r llwybrau cerdded yn llithrig, ac nad ydynt yn rhy galed i draed yr anifeiliaid nac yn eu crafu'n ormodol.

19. Dylai fod gan bob ffermwr gwartheg lociau trafod effeithlon sy'n hawdd eu defnyddio (y maint a'r raddfa iawn ar gyfer y math o anifeiliaid yn y fuches a'u niferoedd). Hyn er mwyn i chi allu rheoli a thrin yr anifeiliaid yn ôl y gofyn, ac i chi allu eu trafod yn dawel a chadarn. Yn ddelfrydol, dylai'r llociau trafod hyn gysgodi'r anifeiliaid rhag tywydd eithafol - boed wres neu oerfel mawr. Dylech gadw'r holl lociau, pasejis, rhedfeydd, cratshau (clwydi atal er mwyn trafod anifail) a lloriau mewn cyflwr da a sicrhau nad os iddynt ymylon pigog nac ymwthgar a allai anafu'r gwartheg.

20. Rhaid bod gennych y cyfleusterau ar y fferm i lwytho gwartheg ar gerbyd a'u dadlwytho ohono, gyda chyn lleied o straen â phosibl. Dylai unrhyw gerbyd cludo gan gynnwys cerbydau'r fferm ei hun fod yn addas at y diben ac mewn cyflwr da. Dylai ceidwaid y stoc wybod sut i drafod anifeiliaid wrth eu llwytho a'u dadlwytho, gan gynnwys:

- defnyddio'r manau gweld (h.y mae gan wartheg gylch gweld eang ond mae yna fan dall y tu ôl iddynt - peidiwch â mynd iddo) a phellter ffoi'r anifail (sef y pellter y bydd yr anifail yn fodlon ichi ddod ato cyn teimlo'r awydd i gilio oddi wrthyh. Trwy ddeall y pellter ffoi, byddwch yn gallu rheoli symudiadau'ch anifail yn well).
- goleuo (mae'n well gan wartheg symud o'r tywyllwch i'r golau).

Tagio

21. Yn ôl y gyfraith rhaid tagio gwartheg â thag clust swyddogol, un ym mhob clust a rhaid ei bod hi'n bosibl darllen un o'r tagiau hyn "o bell". Mae angen dau dag ar wartheg gafodd eu geni ar neu ar ôl 1 Ionawr 1998. Dylai'r tagiau gael eu gosod gan dagiwr cymwys sydd wedi'i hyfforddi rhag i'r anifail ddioddef unrhyw boen a straen diangen - naill ai wrth osod y tag neu wedyn. Gofalwch fod steil a maint y tag yn addas i frîd yr anifail.

22. Wrth osod tagiau clust, rhaid i chi ddal yr anifail yn briodol (rhag iddo allu symud ei ben ar y funud olaf). Gofalwch eich bod yn lleoli ac yn gosod y tagiau'n gywir, gan osgoi gwythiennau a chartilag. Dylech osod tagiau plastig tua thraean y ffordd ar hyd y glust (o'i dal yn syth allan o'r pen), rhwng y ddwy wythien yng nghanol y glust. Os ydych yn defnyddio tagiau metel, dylech eu gosod dros ymyl uchaf y glust, tua thraean o'r ffordd ar hyd y glust. Cofiwch adael digon o fwlch o dan y tag ac ar ymyl y glust iddi dyfu. Os ydych yn tagio gwartheg yn ystod y tymor cynrhoni (h.y. yr haf), cymerwch gamau i rwystro clêr rhag eu poeni. Gofalwch eich bod yn gosod y tag yn gywir trwy ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a defnyddio'r offer cywir ar gyfer y math o dag rydych yn ei osod. Gofalwch hefyd fod yr amodau'n lân.

23. Os ydych yn marcio'r gwartheg â band neu gadwyn gwddf, neu fand cynffon neu fand coesau (ar gyfer adnabod buchod unigol o fewn y fuches) gosodwch nhw'n ofalus a'u haddasu yn ôl yr angen rhag peri unrhyw boen, dioddefaint neu anaf i'r anifail. Dylech eu tynnu oddi arno pan nad oes eu hangen mwyach. Os ydych yn defnyddio erisol neu baent i roi marc dros dro, gwnewch yn siwr mai dim ond sylweddau diwenwyn (diogel) sy'n cael eu defnyddio. Mae rhewfrandio yn ffordd arall o roi marc adnabod parhaol. Gofalwch fod y brandiwr yn gymwys ac wedi'i hyfforddi.

24. Os hoffech fwy o wybodaeth am farcio a thagio gwartheg a chofnodi symudiadau gwartheg, cysylltwch â Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain.

Clipio

25. Dylai unrhyw un sy'n clipio gwartheg fod yn brofiadol ac yn gymwys a dylai fod wedi'i hyfforddi mewn technegau clipio. Dylai lanhau a diheintio ei gyfarpar cyn clipio anifail gwahanol rhag lledaenu heintiau. Dylai'r clipars fod yn addas at y diben bob amser.

Iechyd

Cyffredinol

26. Cadw gwartheg mewn iechyd da yw'r ffactor mwyaf sylfaenol sy'n effeithio ar eu lles. Gallwch reoli llawer o glefydau heintus drwy reolaeth dda a thrwy roi sylw i'r manylion. Mae'r mesurau yn cynnwys hylendid da, hwsmonaeth dda ac awyru effeithiol. Brechu yw'r ffordd orau i rwystro rhai clefydau.

27. Dylech baratoi Cynllun Iechyd Anifeiliaid gyda chymorth milfeddyg ac unrhyw gynghorydd addas arall. Dylai'r cynllun ysgrifenedig roi sylw o leiaf i'r canlynol:

- trefniadau glanhau a diheintio (bioddiogelwch) ar y fferm ac wrth gludo;
- y trefniadau ar gyfer ynysu stoc sydd wedi'u prynu neu sydd wedi'u symud o fewn y daliad;
- unrhyw raglenni i ddelio â chlefyd penodol, megis twbercwlosis gwartheg, leptospirosis, clefyd Johnne, salmonela, dolur rhydd feirysol y gwartheg (BVD), rheinotracheitis heintus y gwartheg (IBR) a'r tafod glas;
- y polisi brechu ac amseru brechiadau;
- rheoli parasitiaid allanol a mewnol, rheoli llyngyr yr ysgyfaint;
- monitro cloffni a gofalu am y traed;
- trefniadau rheolaidd, megis tagio clustiau;
- dadimpio a sbaddu;
- rheoli mastitis;
- cynllun bwydo gan gynnwys maeth a mwynau.

28. Mewn ardaloedd lle rydych yn gwybod bod diffyg mwynau neu ddiffyg cydbwysedd mwynau - a lle bydd anifail yn debygol o ddiodef o ddiffyg fitaminau neu fwynau - bydd angen i chi roi porthiant atodol i'ch anifeiliaid. Gallai anghydbwysedd mwynau neu fitaminau achosi problemau iechyd hefyd. Dylid ychwanegu magnesiwm at y deiet pan fydd risg amlwg o ddiffyg ohono yn y deiet er enghraifft, yn ystod y gwanwyn pan fydd gwartheg yn cael eu troi allan a phan fydd buchod sugno yn diddyfnu eu lloi.

29. Os ydy'ch buches yn diodef yn gas o fastitis haf, dylech holi'ch milfeddyg ynghylch cyflwyno rhaglen reoli addas. Dylai'r mesurau ar gyfer rheoli mastitis haf gynnwys:

- trin gwartheg sych;
- rheoli clêr (yn enwedig o fis Gorffennaf tan fis Medi) drwy ddefnyddio tagiau clust wedi'u trwytho mewn pryfladdwr neu drwy arllwys/sgeintio pryfladdwr; ac
- os yw'n bosibl, osgoi tir pori risg-uchel (e.e. ger perthi/gwrychoedd a dŵr sy'n llifo'n araf sy'n denu clêr) (gweler paragraff 64).

Sgorio cyflwr

30. Gall sgorio cyflwr y corff gyfrannu'n fawr at hwsmona da a'ch helpu i osgoi problemau lles costus. Mae sgorio cyflwr yn dechneg hawdd i'w dysgu. Yn y bôn, mae'n golygu asesu'r adnoddau wrth gefn sydd yng nghyrrff anifeiliaid unigol (h.y. braster). Bydd y dechneg yn ddefnyddiol os ydych yn ei defnyddio fel offeryn rheoli cyson i edrych a yw'r gwartheg yn y cyflwr targed ar gyfer cyfnodau gwahanol yn y cylch cynhyrchu. Bydd hyn yn ddefnyddiol iawn ar yr adegau canlynol:

- adeg bwrw llo;
- y cyfnod llaetha trymaf;
- dechrau'r cyfnod llaetha; a
- sychu neu ddiddyfnu.

Dylech addasu'r drefn fwydo yn ôl yr angen ar gyfer anifeiliaid sy'n rhy dew neu'n rhy denau. Cewch fwy o wybodaeth yn llyfrynnau Defra, 'Condition scoring of dairy cows' a 'Condition scoring of beef suckler cows and heifers'.

Atal Clefydau (Bioddiogelwch)

31. Bioddiogelwch yw'r cyfuniad o gamau a gymerir i leihau'r risg bod clefyd yn cael ei gyflwyno i fferm neu'n lledaenu ar y fferm. Dylid gwneud y camau canlynol yn dda:

- rheoli neu hwsmona;
- hylendid;
- rheoli straen;
- systemau rheoli clefydau megis rhaglenni brechu a lladd llyngyr;
- ynysu.

32. Trwy fod yn ofalus wrth symud da byw i'r fferm, ac o fewn y fferm, byddwch yn lleihau'r perygl o drosglwyddo clefyd. Er enghraifft, dylai unrhyw stoc newydd gael eu cludo mewn cerbydau sydd wedi cael eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr. Gofynnwch i'r gwerthwr am wybodaeth am statws iechyd ei fuches, megis pryd cawsant brofion iechyd a'i drefniadau brechu a lladd llyngyr.

33. Dylai fod gennych gyfleusterau i ynysu gwartheg er mwyn ichi allu cadw golwg ar wartheg newydd, neu wartheg sy'n dod yn ôl i'r fferm, cyn iddynt ymuno â gweddill y fuches. Peidiwch â defnyddio tarw llog neu 'gyfran' oni bai nad oes gennych ddewis ymarferol. Ystyriwch yn ofalus a oes clefydau posibl ar y tarw llog cyn ei adael i'ch buches a holwch eich milfeddyg, Iechyd Anifeiliaid a Llywodraeth y Cynulliad am gyngor.

Cloffni

34. Mae cloffni mewn unrhyw anifail yn arwydd fel arfer ei fod mewn poen. Mae cloffni mewn gwartheg yn arwydd bod yr anifail yn sâl ac yn anghyfforddus. Mae'n amlwg ei fod yn effeithio ar les anifail, yn ogystal ag ar ei berfformiad a'i gynhyrchiant. O'r herwydd, argymhellir symud gwartheg cloff o fannau concred a'u cadw mewn lloc â sarn (gwely) addas. Os oes cloffni difrifol ar nifer o'ch gwartheg, gall hyn fod yn arwydd o safonau lles cyffredinol isel yn y fuches.

35. Os nad yw'ch gwartheg cloff yn ymateb i driniaeth, galwch eich milfeddyg ar unwaith. Gall fod nifer o resymau am gloffni. Dyna pam y mae angen i chi gael diagnosis cynnar a chywir i weld pa fath o gloffni sy'n effeithio ar y fuches cyn gwybod y rhesymau tebygol a chymryd y camau priodol.

36. Os nad yw anifail cloff yn ymateb i driniaeth y milfeddyg, dylech ei ddifa yn hytrach na'i adael i ddiodeff. Felly, os na ellir cludo anifail cloff heb beri mwy o boen iddo, dylid ei ladd ar y fferm (gweler paragraff 52-54). Peidiwch â chludo unrhyw wartheg sydd ddim yn gallu sefyll ar eu traed heb gymorth neu os nad ydynt yn gallu rhoi eu pwysau yn gyfartal ar bedair troed wrth sefyll neu gerdded. Peidiwch â mynd â gwartheg sy'n gallu rhoi eu pwysau yn gyfartal ar bedair troed ond eu bod ychydig yn gloff i'r farchnad nac i unman arall os byddai hynny'n debygol o chwerwi'r anaf, hyd yn oed y mymryn lleiaf.

Mastitis (Garged)

37. Fel gydag unrhyw haint arall, dylid rheoli mastitis am ei fod yn achosi anesmwythyd a diodeffaint i'r anifail. Er bod llai o fastitis clinigol erbyn hyn, prin fod lefel yr haint amgylcheddol wedi newid.

38. Dylai cynhyrchwyr llaeth ddilyn Cynllun Gweithredu Defra ar Reoli Mastitis fel rhan o Gynllun Iechyd y Fferm, a dylai hwnnw a stocmonaeth dda a rheoli amgylcheddol da eich helpu i reoli haint mastitis.

Dylai'r cynllun gynnwys y canlynol:

- hylendid wrth reoli tethi (megis cadw'r tethi'n lân);
- canfod a thrin achosion clinigol yn brydlon;
- rheoli a thrin gwartheg sych;
- cadw cofnodion cywir;
- difa gwartheg â haint cronig; a
- cynnal a chadw a phrofi peiriannau godro yn rheolaidd.

Mae gwartheg eidion yn gallu dal mastitis hefyd a dylech eu trin yn unol â hynny.

Parasitiaid allanol a heintiau ffyngaid

39. Dylech drin clefydau sy'n cael eu achosi gan barasitiaid allanol â pharasitladdwr addas - yn enwedig os yw croen yr anifail yn crafu a'i fod yn ei rwbio. Peidiwch â thrin eich anifail am barasitiaid heb gael cyngor eich milfeddyg yn gyntaf. Dylai unrhyw drefn rheoli a thrin fod yn rhan o'r Cynllun Iechyd Anifeiliaid.

Parasitiaid mewnol

40. Y ffordd orau o reoli parasitiaid mewnol yw trwy reoli lle mae'ch anifeiliaid yn cael pori, a thrwy ddefnyddio moddion lladd llyngyr (llyngyr main a llyngyr yr iau) neu drwy eu brechu (i atal llyngyr yr ysgyfaint). Seiliwch y driniaeth ar gyloch bywyd y parasitiaid dan sylw. Dylai pob fferm - a chynhyrchwyr organig yn benodol - ofyn am gyngor eu milfeddyg ar yr agwedd hon o'u Cynllun Iechyd Anifeiliaid.

Cyfarpar dosio a brechu

41. Dylech sicrhau bod yr holl gyfarpar yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer dosio, trin a brechu'ch anifeiliaid mewn cyflwr da. Yn ddelfrydol, defnyddiwch gyfarpar o'ch fferm eich hunan. Os oes rhaid i chi gael ei fenthyg, gwnewch yn siwr ei fod yn lân ac wedi'i ddiheintio cyn ei ddefnyddio ar eich fferm. Rhaid glanhau a sterileiddio unrhyw gyfarpar yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer chwistrellu, i osgoi heintiadau a chrawniadau. Yn ddelfrydol, dylech ddefnyddio nodwydd newydd ar gyfer pob anifail. Mae systemau amlnodwydd ar gael ond rhaid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr (defnyddiwch nodwyddau untro o bosibl). Dylai maint trwyn y gwn dosio fod yn addas i faint yr anifail. Dilynwch gyfarwyddiadau gwneuthurwr y cyffur a dylai doswyr gael eu hyfforddi i roi triniaethau - megis trwy chwistrellu neu folysau drwy'r llwnc - oherwydd mae'n hawdd anafu anifail o beidio â'i drin yn iawn.

42. Dylech chi a'ch milfeddyg adolygu'n rheolaidd y meddyginiaethau rydych yn eu cadw ar eich fferm. Am fod gan feddyginiaethau oes silff penodol, ni ddylech gadw mwy o feddyginiaeth nag y gallwch ei defnyddio yn y cyfnod hwnnw. Cofiwch storio meddyginiaethau mewn lle diogel a hawdd mynd ato allan o afael plant ac o gyrraedd anifeiliaid a golau'r haul. Rhaid cael presgripsiwn ar gyfer rhai meddyginiaethau a rhaid defnyddio'r rheini o dan gyfarwyddyd milfeddyg.

43. Byddwch yn ofalus wrth gael gwared ar gynwysyddion meddyginiaethau a rhowch nodwyddau mewn cynhwysydd diogel. Mae (Bydd) gwastraff milfeddygol a ddefnyddir ar fferm yn cael ei gynnwys yn y Rheoliadau Gwastraff Amaethyddol. Mae'r rhan fwyaf o filfeddygfeydd yn cymryd meddyginiaethau, nodwyddau, hen gynwysyddion a chwistrellau yn ôl.

Clefydau hysbysadwy

44. Os ydych yn credu bod gennych anifail sy'n dioddef o glefyd hysbysadwy, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i hysbysu Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol cyn gynted â phosibl.

Dyma'r prif glefydau hysbysadwy sy'n effeithio ar wartheg:

Anthracs

Brucella abortus (Brwselosis)

Clefyd Aujesky

Clefyd y croen talpiog

Clwy'r traed a'r genau

Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE)

Lewcosis buchol ensöotig

Pliwro-niwmonia

Pryf gweryd

Rinderpest

Stomatitis fescwlar

Tafod glas

Twbercwlosis

Twymyn y Dyffryn Holit

Y Gynddaredd

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y clefydau hyn ar gael ar wefan Defra, gan eich milfeddyg lleol neu Swyddfa Ranbarthol Iechyd Anifeiliaid.

Anifeiliaid sâl ac anafus

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)): -

os yw'n ymddangos fod unrhyw anifail yn sâl neu wedi'i anafu:

- rhaid gofalu amdano'n briodol heb oedi; a
- os nad yw'n ymateb i'r gofal hwnnw, rhaid cael cyngor milfeddygol cyn gynted â phosibl.

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 6 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)): -

Os oes angen, rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych lle bo hynny'n briodol.

45. Rhaid gweithredu ar unwaith os oes unrhyw wartheg wedi'u hanafu neu os ydyn nhw'n ymddangos yn sâl neu o dan straen. Mae'n bwysig cadarnhau a oes clefyd hysbysadwy arnyn nhw ai peidio. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn ag achos yr afiechyd neu ba driniaeth fyddai fwyaf effeithiol, gofynnwch i'ch milfeddyg yn ddi-oed. Yn yr un modd, os nad yw anifail yr ydych wedi'i drin yn ymateb i'r driniaeth, holwch eich milfeddyg.

46. Dylai fod gennych drefn ar gyfer ynysu anifeiliaid sâl neu anafus ac ar gyfer gofalu amdany'n nhw. Mae llociau ynysu yn elfen hanfodol o unrhyw uned wartheg. Yn ddelfrydol, dylent fod draw oddi wrth stoc iach, gyda mynedfa ar wahân sy'n ddigon llydan i hel anifail drwyddi'n rhwydd. Dylai'r llociau hyn fod mewn lle hwylus fel y gellir archwilio'r anifail sâl yn rheolaidd. Dylai fod ynddynt ddigonedd o ddŵr yfed a chyfleusterau bwydo. Yn ddelfrydol, dylai fod cyfarpar yn y llociau i ddal yr anifail, a dylai unrhyw fuwch sydd angen ei godro gael ei godro heb iddi adael y lloc.

47. Os nad yw'r anifail yn ymateb i driniaeth, dylech ei ddifa neu ei ladd yn ddi-boen ar y fferm. Dylid difa unrhyw anifeiliaid sy'n dioddef o gyflwr na ellir ei wella (megis clefyd mwcosal neu glefyd Johnne), cyflyrau sy'n gwenwyno neu gyflyrau poenus na ellir eu trin, cyn gynted â phosibl ar ôl y diagnosis.

Anifeiliaid gorweiddiog

48. Pan na fydd anifail yn gallu codi - anifail gorweiddiog - rhaid rhoi bwyd a dŵr iddo a lle sych cysurus iddo orwedd. Gofalwch na all ddŵr sarnu/golli ar lawr drwy ddefnyddio cynhwysydd priodol wedi'i osod yn ofalus, rhag gwlychu'r lle gorwedd ac amddifadu'r anifail o ddŵr. Wrth drin 'anifail gorweiddiog', rhaid 'troi'r' anifail (ei symud yn rheolaidd) er mwyn sicrhau nad yw'n gorffwys yn ormodol ar un ochr. Dylid troi'r anifail ddwywaith y dydd o leiaf. Bydd yr anifail yn fwy tebygol o wella os caiff gofal o ansawdd da ar ddechrau'r cyfnod gorwedd.

49. Pan fydd anifail yn mynd yn orweiddiog, mae'n bwysig gwybod pam. Os oes yna hanes o drawma, er enghraifft cwympto neu lithro, dylai milfeddyg asesu'r anaf. Os nad oes llawer o obaith iddo wella, peidiwch ag oedi rhag ymyrryd yn gynnar drwy ddifa'r anifail yn ddi-boen ar y fferm.

50. Os oes rheswm meddygol i'r gorwedd, megis twymyn llaeth neu fastitis tocsig, rhowch y driniaeth briodol yn unol â chyngor eich milfeddyg. Os yw 'anifail gorweiddiog' wedi bod yn orweiddiog am fwy na 24 awr, rhaid cael milfeddyg i'w asesu. Peidiwch â cheisio codi anifail gorweiddiog cyn i filfeddyg ei asesu rhag i'r broses achosi mwy o ddiodefaint i'r anifail.

Mae Erthygl 4(1) o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 2007 (O.S. 2007 Rhif 1047) (W105) yn darparu: -

- Ei bod yn drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi anaf neu ddiodefaint diangen i'r anifail hwnnw.

51. Ni ddylech gludo anifail nad yw'n ffit **oni bai'ch** bod yn ei gludo at filfeddyg ar gyfer triniaeth neu ddiagnosis a hyd yn oed wedyn, dim ond os nad yw'r cludo yn achosi mwy o ddiodefaint diangen i'r anifail. Cewch ragor o wybodaeth ynghylch pa anifeiliaid sy'n ffit i deithio gan yr Adran Materion Gwledig ac ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

Lladd mewn argyfwng a lladd di-boen

52. Mewn argyfwng, efallai y bydd yn rhaid lladd anifail ar unwaith er mwyn dod â'i ddiodefaint i ben. Mewn achosion o'r fath, dylid difa'r anifail yn ddi-boen ac, os yw'n bosibl, dylai hynny gael ei wneud gan rywun sy'n brofiadol a/neu wedi'i hyfforddi mewn dulliau lladd ac mewn defnyddio'r cyfarpar.

53. Os ydy'r anifail yn cael ei ladd ar y fferm heb iddi fod yn argyfwng, rhaid defnyddio dull sy'n gyson â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf sy'n ymwneud â lles anifeiliaid wrth eu lladd. Am fwy o gyngor, cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'i holi ynghylch *Lladd Da Byw Gartref: Arweiniad i'r Gyfraith yng Nghymru*.

54. Os yw perchennog gwartheg am ladd yr anifail ar y fferm i'w fwyta ei hun, mae angen iddo ddeall bod cyfyngiadau a rheolau ar y broses hon o dan ddeddfwriaeth Diogelwch Bwyd. Y timau Diogelwch Bwyd yn adrannau lechyd yr Amgylchedd y cynghorau lleol sy'n gorfodi'r rheolau hyn a dylai unrhyw un sydd am ladd anifail ofyn am eu cyngor a'u harweiniad. Yn gyffredinol rhaid peidio â "gwerthu" cig sy'n dod o anifail a gafodd ei ladd a'i gigydda ar y fferm.

Cadw cofnodion

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 7 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007(O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264):

Rhaid cadw cofnod -

- a) o unrhyw driniaeth feddyginiaethol a roir i anifeiliaid; ac
- b) o'r nifer o farwolaethau a ganfyddir ymhob archwiliad o'r anifeiliaid a wneir yn unol ag unrhyw un o'r darpariaethau canlynol

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 8:

- Rhaid cadw'r cofnod y cyfeirir ato ym mharagraff 7 am gyfnod o dair blynedd o leiaf o'r dyddiad pan roddwyd y driniaeth feddyginiaethol, neu ddyddiad yr archwiliad. Rhaid i'r cofnod fod ar gael ar gyfer ei archwilio.

Dywed paragraffau 19 (1) (2) (3) a 20 (1) Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2009 (SI2009/2297):

cofnod prynu a rhoi

(1) Pan fydd y feddyginiaeth filfeddygol yn cael ei phrynu neu ei meddiannu ar gyfer anifail sy'n cynhyrchu bwyd, rhaid i'r ceidwad gofnodi bryd hynny -

- (a) enw'r cynnyrch a rhif y batsh;
- (b) dyddiad ei brynu;
- (c) faint a brynwyd
- (d) enw a chyfeiriad y cyflenwr.

(2) Pan gaiff y feddyginiaeth ei rhoi (oni bai ei bod yn cael ei rhoi gan filfeddyg; bryd hynny, rhaid cofnodi yn unol â rheoliad 18), rhaid i'r ceidwad gofnodi -

- (a) enw'r cynnyrch;
- (b) dyddiad ei rhoi;
- (c) faint a roddir;
- (d) cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd
- (e) manylion yr anifeiliaid sy'n cael eu trin.

(3) Wrth gael gwared ar feddyginiaeth filfeddygol heblaw trwy drin anifail, rhaid i'r ceidwad gofnodi -

- (a) dyddiad cael gwared arno;
- (b) faint o'r cynnyrch sydd dan sylw
- (c) sut y cafodd wared arno a ble.

55. Rhaid i geidwad anifail cynhyrchu bwyd gadw'r dogfennau ar gynnyrch meddyginiaethau milfeddygol a'r cofnodion sy'n ymwneud â'r cynnyrch am o leiaf pum mlynedd ar ôl rhoi'r cynnyrch neu gael gwared arno, waeth a yw'r anifail dan sylw yn ei feddiant, wedi'i ladd neu wedi marw.

56. Dim ond meddyginiaethau sydd wedi'u hawdurdodi yn y DU ddylai gael eu prynu a'u defnyddio a rhaid cadw cofnodion llawn o bob meddyginiaeth. Rhaid i hyn gynnwys manylion y man lle prynwyd y meddyginiaethau.

57. Cynghorir yn gryf y dylai unrhyw Gynllun Iechyd Anifeiliaid gynnwys cofnod ysgrifenedig am bob achos o fastitis, cloffni ac anhwylderau eraill fel y dwymyn llaeth a niwmonia, ac o'r driniaeth a roddwyd.

Bwyd, dŵr a sylweddau eraill

Yn ôl Atodlen 1, paragraffau 22-27 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- Rhaid i anifeiliaid gael eu bwydo â deiet iachusol sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth ac a fwydir iddynt mewn cyflenwad digonol i'w cynnal mewn iechyd da, i ddiwallu eu hanghenion maethol a hybu cyflwr cadarnhaol o lesiant.
- Rhaid peidio â darparu i anifeiliaid fwyd neu hylif sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a allai beri dioddefaint neu anaf diangen iddynt, a rhaid darparu bwyd a hylif ar eu cyfer mewn modd nad yw'n peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.
- Rhaid i bob anifail gael y cyfle i fynd at fwyd ar adegau sy'n briodol i'w anghenion ffisiolegol, (ac o leiaf unwaith y dydd beth bynnag), ac eithrio pan fo milfeddyg wrth arfer ei broffesiwn yn cyfarwyddo fel arall.
- Rhaid i bob anifail gael cyfle naill ai i fynd at gyflenwad addas o ddŵr a chael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd, neu allu diwallu ei angen i yfed digon o hylifau trwy ddulliau eraill.
- Rhaid i offer bwydo a dyfrio gael ei ddylunio, ei adeiladu, ei osod a'i gynnal fel bod difwyno bwyd a dŵr ac effeithiau niweidiol cystadlu rhwng anifeiliaid yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.
- Ni chaniateir rhoi i anifeiliaid unrhyw sylwedd arall, ac eithrio rhai a roddir at ddibenion therapiwtig neu broffylactig neu at ddibenion triniaeth sŏotechnegol, oni ddangoswyd mewn astudiaethau gwyddonol ar les anifeiliaid neu trwy ymarfer sefydledig nad yw effaith y sylwedd hwnnw yn niweidiol i iechyd neu les yr anifeiliaid.

58. Mae angen deiet dyddiol cytbwys ar wartheg i gynnal eu hiechyd a diwallu eu hangen am egni. Dylid monitro faint o borfa sydd ar gael, a phan nad oes digon at anghenion yr anifail dylech roi porthiant atodol iddo â bwydydd eraill addas. Dylid cadarnhau'r cyfuniad, y swm a'r math o fwydydd atodol a roddir yn rheolaidd er mwyn sicrhau deiet cytbwys. Dylid cynllunio unrhyw newidiadau i'r deiet a'u cyflwyno'n raddol.

59. Yn ddelfrydol, dylai porthiant a gafodd ei gywain (fel silwair a gwair) sy'n cael ei fwydo i fuchod sy'n llaetha gael ei ddadansoddi i fesur ei werth maethol cyn ei fwydo. Os oes angen, dylid gofyn am gyngor arbenigol ar ba borthiant atodol y dylid ei fwydo i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion yr anifail. Weithiau bydd angen dadansoddi ansawdd bwydydd a brynir yn enwedig os nad yw'r cyflenwr yn cynnig dadansoddiad. Mae rheolaeth dda ar borthi gwartheg sy'n llaetha yn golygu eu bod yn cael cymaint ag sydd ei eisiau arnynt. Dylid cynnig gormod o fwyd a chodi unrhyw fwyd sydd dros ben bob dydd gan y bydd bwyd sydd wedi mynd yn hen yn halogi bwyd ffres ac yn lleihau'r awch am fwyd.

60. Dylai buchod sy'n llaetha gael eu sychu'n gyflym a'u rhoi ar ddeiet porthiant blasus, er mwyn eu helpu i gadw eu graen. Os ydy buwch mewn cyflwr da neu uwch (sgôr cyflwr (CS) 3 neu uwch) ar ddechrau ei chyfnod yn sych, peidiwch â rhoi gormod o borthiant atodol iddi rhag iddi gael problemau wrth fwrw llo. Mae rheoli pwysau byw a chyflwr gwartheg yn ofalus yn gymorth gwerthfawr i gael y gorau o wartheg sugno. Mae'r broses hon yn cael ei defnyddio fel arfer gyda gwartheg sych a fydd yn bwrw eu lloi yn y gwanwyn sy'n dechrau'r gaeaf â Sgôr Cyflwr o 3 neu well. Mae eu rheoli i golli graen yn rhyddhau egni deietegol ac yn lleihau'r gost o'u bwydo yn y gaeaf. (Ceir mwy o fanylion yn y daflen gan Gyswllt Ffermio 'Winter Feeding the Suckler Herd').

61. Dylai bod digon o frasfwyd ar gael ym mhob deiet i osgoi clwy'r boten neu laminitis. Mewn systemau pesgi dwys â haidd, dylid trefnu bod brasfwyd hir, fel gwellt, ar gael i'w fwyta. Pan ddefnyddir dognau cymysg cyflawn, yna dylid holi am gyngor arbenigwr.

62. Rhaid gofalu bod gan yr anifeiliaid sydd wedi'u hynysu ar gyfer eu trin ddigon o ddŵr a dylid eu bwydo â'u bwyd arferol oni bydd milfeddyg yn cynghori fel arall.

63. Dylai fod yn bosibl i o leiaf 10% o'r gwartheg sydd o dan do allu yfed yr un pryd. Dylai cafnau dŵr - yn enwedig y rhai sydd mewn unedau rhydd neu mewn unedau ciwbiclau - gael eu dylunio a'u gosod mewn man:

- lle maen nhw wedi'u diogelu rhag baeddu; a
- nad yw'r dŵr yn debygol o rewi mewn tywydd oer.
- mae digon o le i'r stoc fynd atynt heb leoedd segur.

Mae'n bwysig cadw'r cafnau neu'r powlenni dŵr yn lân a dylid cadw golwg arnynt o leiaf unwaith bob dydd i wneud yn siwr nad ydyn nhw wedi'u blocio na'u difrodi, a bod y dŵr yn llifo'n rhwydd. Mae chwilio am rwystrau yr un mor bwysig pan ddefnyddir tethi dŵr. Rhaid wrth drefniadau ar gyfer cyflenwi dŵr mewn argyfwng.

64. Ar gyfer gwartheg pori, mae angen cafnau dŵr priodol (rhaid digon mawr wedi'u dylunio'n iawn) neu ryw ffynhonnell arall o ddŵr yfed (megis bowser, neu dancar dŵr) y gall yr anifail fynd ato pan fydd yn pori. Dylai'r mannau hyn fod yn hawdd eu cyrraedd ac yn llyfn dan draed heb duedd i fynd yn fwdlyd. Rhaid cymryd gofal os daw'r dŵr o ffynonellau naturiol oherwydd gallai wneud y gwartheg yn agored i glefyd oddi wrth wartheg eraill ac o ffermydd cyfagos.

Cadw dan do

Cyffredinol

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- Pan gedwir anifeiliaid (heblaw dofednod) mewn adeilad, rhaid eu cadw ar fan gorwedd, neu rhaid iddynt bob amser allu mynd i fan gorwedd sydd naill ai â gwasarn sych wedi'i gynnal yn dda neu sydd wedi'i ddraenio'n dda.

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 9 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- Rhaid peidio â chyfyngu ar ryddid anifeiliaid i symud, o roi sylw i'w rhywogaeth ac yn unol ag arfer da a gwybodaeth wyddonol, mewn unrhyw fodd a fydd yn peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 10, os bydd anifeiliaid yn cael eu clymu neu eu caethiwo'n ddi-dor neu'n rheolaidd:

- rhaid iddynt gael y lle priodol ar gyfer eu hanghenion ffysiolegol ac etholegol yn unol ag arfer da a gwybodaeth wyddonol.

65. Dylai fod digon o gysgod a lle yn adeilad y gwartheg iddynt allu symud o gwmpas ac ymwneud â'i gilydd (sy'n cynnwys digon o le i anifail isradd symud o ffordd un uwch ei gradd). Mae'n bwysig darparu man mor gysurus â phosibl i'r anifeiliaid gael gorwedd ynddo cyhyd ag y mynnont, a chael digon o le i godi drachefn. Ni ddylai'r llawr fod yn rhy serth - dim mwy na 10%. Gall lloriau serth achosi problemau i'r coesau a pheri iddynt lithro a chwympo.

66. Dylid cadw buarthau a llwybrau tramwy concriid mewn cyflwr da. Ni ddylent fod yn rhy arw rhag iddynt sgathru neu hyd yn oed dorri gwadnau traed yr anifeiliaid. Ar y llaw arall, gofalwch nad yw'r buarthau a'r llwybrau tramwy wedi gwisgo'n llyfn, gan fod perygl bryd hynny i'r anifeiliaid lithro ac anafu'u coesau a manau eraill. Peidiwch â gadael i slyri gasglu ar y lloriau a'r llwybrau tramwy concriid, gan y byddai hynny'n eu gwneud yn llithrig.

67. Os defnyddir lloriau slatiog, peidiwch â gadael iddynt fynd yn llithrig. Ni ddylai'r bylchau rhwng y slatiau fod yn rhy lydan rhag achosi niwed i'r traed (er enghraifft, trwy ddal y carnau). Dim ond anifeiliaid o'r maint priodol ddylai gael defnyddio llociau â lloriau slatiog. Mae'n bwysig eu stocio'n briodol. Bydd rhy ychydig o anifeiliaid mewn lloc yn arwain at wartheg budr, rhy fudr i'w derbyn i'r lladd-dy.

68. Ni ddylid cadw gwartheg magu neu dreisiedi/heffrod cadw ar loriau concriid slatiog. Os defnyddir slatiau, dylai rhan o'r llety fod â llawr soled gyda gwellt neu sarn addas, er mwyn i'r anifeiliaid fod yn gysurus a bod yn llai tebygol o'u niweidio eu hunain.

69. Dylid cadw teirw tew o dan system fagu ddwys mewn grwpiau bach, yn ddelfrydol dim mwy nag 20 anifail ym mhob grŵp. Rydym yn eich cyngori yn erbyn ychwanegu teirw at grŵp sydd eisoes wedi'i ffurfio, a pheidiwch â rhoi un grŵp gydag un arall i'w hanfon i'r lladd-dy. Dylai teirw dros 6 mis oed gael pori neu eu cadw mewn grwpiau ar wahân i wartheg benyw.

Buarthau gwellt

70. Ar gyfer buchesi godro, dylech lanhau buarthau gwellt yn drylwyr bob pedair i chwe wythnos. Dylech wneud hyn rhag i'r gwartheg fynd yn rhy fudr ac i leihau'r risg o fastitis o facteria yn y sarn (h.y. mastitis amgylcheddol). Dylid rhoi gwellt glân a sych ar fuarthau gwellt bob dydd. Gyda buchesi sugno, nid oes yn rhaid glanhau nac ychwanegu gwellt mor aml, cyn belled nad yw'r buchod yn rhy fudr i'w lloi allu eu sugno bob dydd. Cynlluniwch fel bod digon o stoc o wellt glân a sych ar gael ar gyfer y cyfnod pan fydd y gwartheg dan do yn y gaeaf. Os medrwch, storiwch y gwellt o dan do, i'w cadw'n sych. Dylai fod gennych ddigon o le i'r holl anifeiliaid allu gorwedd yn gysurus ar yr un pryd, a sefyll a symud yn rhwydd.

71. Dylai fod gennych ddigon o le i'r holl anifeiliaid yn y grŵp rheoli allu gorwedd yn gysurus a symud o gwmpas yn rhwydd. Os oes cafnau bwyd a dŵr yn y lle gorwedd, gofalgwch fod mesurau i rwystro'r gwartheg rhag eu baeddu. Os oes cafnau bwyd a dŵr yn y man sefyll gerllaw, gofalgwch fod y mynedfeydd yn ddigon llydan i'r anifeiliaid allu symud yn rhwydd rhyngddynt a rhwystrwch y llwybrau rhag mynd yn wlyb, bawlyd a llithrig. Os oes man sefyll, yn ddelfrydol dylai o leiaf ran ohono fod o dan do. Bydd angen rhwystro slyri rhag ymgasglu ar y llwybrau tramwy a'r manau sefyll drwy eu hysgubo o leiaf ddwywaith y dydd neu drwy gael slatiau.

72. Pan fydd yn briodol, dylid mynd â gwartheg gwasod (sy'n gofyn tarw) o'r prif grŵp am y tro rhag iddynt gorddi'r buarth gwellt. Bydd gwellt sydd wedi'i gorddi yn baeddu'r gwartheg, a gall arwain at fastitis. Gallai aflonyddwch gwartheg gwasod arwain at anafu tethi.

Ciwbiclau

73. Gofynnwch am gyngor arbenigwr os ydych chi'n cael ciwbiclau newydd neu'n newid eich cyfleusterau presennol. Ystyriwch faint, siâp a phwysau'r anifeiliaid wrth ddylunio'r ciwbiclau. Dylai llwybrau tramwy'r ciwbiclau fod yn ddigon llydan i wartheg allu mynd heibio'i gilydd yn rhwydd.

74. Dylai ciwbiclau gael eu dylunio fel ei bod yn rhwydd i fuchod orwedd a chodi ynddynt heb eu hanafu eu hunain. Dylai fod digon o sarn/gwellt ar gyfer:

- cadw'r gwartheg yn gysurus;
- eu harbed rhag cael briwiau wrth rwbio (drwy orwedd o hyd yn yr un ffordd neu mewn lle cyfyng); a
- chadw tethi, cadeiriau/pyrsiau ac ochrau'r gwartheg yn lân.

Ni ddylai'r cwrbyn i'r ciwbicl fod mor uchel fel ei fod yn straen ar goesau'r gwartheg i ddringo i fyny ato; ac ni ddylai'r ciwbicl chwaith fod mor isel fel ei fod yn cael ei faeddu â slyri.

75. Dylid cael digon o giwbiclau i ateb maint y grŵp, o leiaf un ar gyfer pob buwch ac yn ddelfrydol tua 5% yn fwy o giwbiclau na nifer y gwartheg yn y grŵp rheoli. Dylid hyfforddi treisiedi/heffrod i orwedd yn iawn yn y ciwbiclau drwy anogaeth (rhoi sarn/gwellt cyfarwydd iddynt), yn hytrach na thrwy orfodaeth (e.e. eu clymu).

76. Mae'n bwysig sicrhau bod cyn lleied â phosibl o slyri ar y llawr, naill ai drwy sgubo'r llwybrau tramwy o leiaf ddwywaith y dydd neu drwy ddefnyddio llwybrau slatiog. Argymhellwn eich bod yn glanhau llawr ciwbicl buchod godro bob dydd gan roi sarn/gwellt glân yn ôl yr angen, i'w gadw'n lân.

Beudai

77. Mewn beudai, dylai'r man gorwedd fod yn ddigon o faint ar gyfer y fuwch sy'n cael ei chadw yno, dylai gadw'r fuwch yn lân a chysurus, a'i harbed rhag niweidio'i chymalau. Argymhellwn eich bod yn rhyddhau'r fuwch o'i haerwy o leiaf unwaith bob dydd iddi gael estyn ei choesau ac i gael bwyd a dŵr os oes angen. Dylai allu llyfu ei hun pan fydd wedi'i chlymu. Mae angen gofalu bod y beudy wedi'i awyru'n dda.

Yn ôl Atodlen 1, paragraffau 11 a 12 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- rhaid i'r defnyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r llety, ac, yn benodol ar gyfer adeiladu corlannau, cewyll, corau ac offer y gall yr anifeiliaid ddod i gyffyrddiad â hwy, beidio â bod yn niweidiol iddynt a rhaid bod modd eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr.
- rhaid i'r adeiladau a'r ffitiadau ar gyfer sicrhau anifeiliaid gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw fel nad oes ymylon nac allwthiadau llym yn debygol o beri anaf iddynt.

78. Dylid dylunio cafnau bwyd a dŵr a'u gosod fel na all anifeiliaid llai fynd i mewn iddynt a dylid eu cadw'n lân. Os rhoddir dogneau bach o fwydydd penodol, dylai'r cafnau fod yn ddigon mawr i holl anifeiliaid y lloc allu bwyta yr un pryd ac osgoi ymladd â'i gilydd.

79. Dylai wynebaw mewnlol adeiladau a llociau fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau y mae modd i chi eu glanhau a'u diheintio, a'u trwsio yn rhwydd yn ôl yr angen.

80. Ar arwynebaw sy'n dod i gysylltiad â'r anifeiliaid, defnyddiwch gadwolion paent neu bren sy'n ddiogel i'w defnyddio gydag anifeiliaid. Mae perygl y gallai fod gwenwyn plwm mewn hen baent, yn enwedig mewn deunydd adeiladu ail law.

Gaeafu Gwartheg yn yr Awyr Agored

81. Os ydych yn cadw gwartheg allan yn yr awyr agored dros y gaeaf, gofalgwch eu bod o frid neu oed sy'n gallu gwrthsefyll tywydd cas.

82. Dylech asesu faint o faeth sydd ei angen ar wartheg sy'n cael eu gaeafu yn yr awyr agored a'i gymharu â'r hyn y byddent yn ei gael trwy bori. Os nad yw'r borfa yn gallu eu cynnal heb iddynt ddiodef, dylid rhoi bwyd atodol iddynt heb niweidio'r amgylchedd. Mae gwair yn well dewis na silwair gan y bydd unrhyw fwyd a gaiff ei wrthod yn achosi llai o niwed amgylcheddol a bydd ei gludo yn creu llai o rigolau ar y tir pori. Wrth roi dwysfwyd iddynt, gofalgwch fod pob anifail yn gallu mynd at y bwyd a bwyta yr un pryd.

83. Os yw'r gwartheg yn cael eu gaeafu yn yr awyr agored ar lorïau caled neu gorlannau â naddion pren ("padiaw gaeafu") dylid lleoli'r padiaw â gofal fel bod cysgod i'r gwartheg rhag gwynt cryf, curlaw a lluwch eira, a bod man glân a sych iddyn nhw allu gorwedd arno. Gofalgwch nad yw'r llawr yn gallu niweidio traed y gwartheg a dylai'r cafnau bwyd a dŵr naill ai fod ar fannau caled hawdd eu glanhau neu fod modd eu symud yn rhwydd ac yn rheolaidd.

84. Nid yw padiaw gaeafu yn ddewis mor rhad ag a dybir yn aml. Holwch Asiantaeth yr Amgylchedd am y safle sydd gennych mewn golwg cyn dechrau adeiladu gan fod padiaw gaeafu yn cynhyrchu llawer o ddŵr tail sy'n gallu achosi llygredd.

85. Mae perygl y gall gwartheg sy'n cael eu cadw allan mewn tywydd drwg wneud difrod i adeilwadwaith pridd gan arwain at erydu'r pridd ac o bosibl lygru cyrsiau dŵr. Dylech ddarllen taflenni ffeithiau trawsgydymffurfio i gael mwy o arweiniad. Os ydych yn derbyn taliad trwy un o'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol dylech fod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau ar safleoedd bwydo yn y gaeaf.

86. Dylid nodi mai hawl pori yn unig yw'r hawl i bori ar dir comin ac nad yw'n rhoi unrhyw hawl i roi porthiant atodol, ac eithrio pan fo'r tywydd yn eithafol a hynny er lles y da byw.

Lwfansau gofod

87. Wrth gyfrif faint o ofod sydd ei angen ar wartheg sy'n cael eu cadw o dan do mewn grwpiau, dylech ystyried:

- yr amgylchedd cyfan;
- oed, rhyw, pwysau byw ac anghenion ymddygiad y stoc;
- maint y grŵp; ac
- a oes cynn gan yr anifeiliaid;

a dylech seilio'ch penderfyniad ar gyngor arbenigol.

Awyru

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 13 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- rhaid i gylchrediad aer, lefalau llwch, tymheredd, lleithder aer cymharol a chrynodiadau nwy gael eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i anifeiliaid.

88. Dylai pob adeilad newydd gael ei ddylunio gyda chysur yr anifeiliaid mewn golwg, a chyda'r nod o atal clefydau anadlu. Dylai'r adeiladau gynnig digon o awyriad gydol y flwyddyn ar gyfer y math o stoc a'u maint a'r nifer sy'n cael eu cadw ynddynt. Pan fydd hynny'n briodol, dylech inswleiddio'r toeon i atal pelydrau'r haul.

89. Os nad yw'r adeiladau presennol yn cael eu hawyru'n ddigon da, dylech eu haddasu drwy wella mewnfeydd ac allfeydd aer, neu drwy ddefnyddio cyfarpar mecanyddol (megis ffaniau).

90. Rhaid bod yn ofalus, wrth garthu'r slyri sy'n ymgasglu o dan slatiau, rhag amhuro'r aer â nwyon peryglus (megis methan) sy'n gallu lladd pobl ac anifeiliaid. Yn ddelfrydol, dylech wagio'r tanciau slyri pan fydd yr adeilad yn wag. Os nad oes dewis ond carthu'r slyri pan fydd y gwartheg yn yr adeilad, ewch â nhw allan tra'ch bod yn gwneud y gwaith. Gofalwch fod yr adeilad yn cael ei awyru'n drylwyr wrth ichi wneud y gwaith.

Goleuo

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)), Atodlen 1, paragraff 3:

- pan gedwir anifeiliaid mewn adeilad rhaid cael digon o oleuadau (naill ai'n sefydlog neu'n symudol) i'w galluogi i gael eu harchwilio'n drwyadl ar unrhyw adeg.

Yn ôl Atodlen 1, paragraffau 14-16:

- Rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau beidio â chael eu cadw mewn tywyllwch parhaol.
- Os nad yw'r golau naturiol sydd ar gael mewn adeilad yn ddigonol i ddiwallu anghenion ffysiolegol ac etholegol unrhyw anifeiliaid a gedwir ynddo yna rhaid darparu golau artiffisial priodol.
- Rhaid peidio â chadw anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau heb gyfnod priodol o orffwys pan nad oes golau artiffisial.

91. Yn ystod oriau golau dydd, dylai'r golau tu mewn - boed naturiol neu artiffisial - fod yn ddigon disglair i chi allu gweld yr holl wartheg yn glir ac i'r gwartheg allu bwyta ac ymddwyn yn normal. Yn ogystal, dylai fod digon o oleuadau sefydlog neu symudol ar gael os oes angen archwilio anifeiliaid (er enghraifft, pan fydd buwch yn bwrw llo).

Cyfarpar

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (cy.223)) (Atodlen 1, Paragraffau 18-21):

- Rhaid i bob offer awtomataidd neu fecanyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a llesiant yr anifeiliaid gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg arno.
- Pan ganfyddir diffygion mewn offer awtomataidd neu fecanyddol o'r math y cyfeirir ato yn y paragraff uchod, rhaid eu cywiro ar unwaith, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid tra disgwylir i'r diffygion hynny gael eu cywiro gan gynnwys defnyddio dulliau amgen o fwydo a dyfrio a dulliau amgen o ddarparu a chynnal amgylchedd boddhaol.
- Pan fydd iechyd a llesiant yr anifeiliaid yn ddibynnol ar system awyru artiffisial -
 - rhaid darparu ar gyfer system wrth-gefn briodol i warantu digon o adnewyddu aer i gadw iechyd a llesiant yr anifeiliaid os digwydd i'r system fethu; a
 - rhaid darparu system larwm (a fydd yn gweithredu hyd yn oed os bydd y prif gyflenwad trydan yn methu) i rybuddio am unrhyw fethiant yn y system.
- Rhaid i'r system wrth-gefn gael ei harchwilio'n drwyadl a rhaid i'r system larwm gael ei phrofi o leiaf unwaith bob saith diwrnod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg yn y system ac, os canfyddir unrhyw ddiffyg (adeg archwilio neu brofi'r system yn unol â'r *paragraff hwn* neu ar unrhyw adeg arall) rhaid ei gywiro ar unwaith.

92. Dylai pob cyfarpar trydan o'r prif-gyflenwad gyrraedd y safonau perthnasol. Bydd wedi'i ddaearu'n iawn ac allan o gyrraedd yr anifeiliaid.

Foltedd isel mewn parlyrau godro

93. Cyfarpar trydan yn y parlwr godro neu'n agos ato sy'n achosi foltedd strae. Gall dyfu'n broblem mewn ambell parlwr. Mae gwartheg yn fwy sensitif i sioc drydan na phobl a gall boeni ac aflonyddu'r gwartheg amser godro. Bydd hi'n anodd cael y gwartheg i'r parlwr, byddan nhw'n nerfus a byddan nhw'n teilo mwy ac yn cynhyrchu llai o laeth. Dylech chwilio am foltedd strae yn ystod neu'n union ar ôl godro pan fydd y cyfarpar a'r llawr yn wlyb. Y foltedd pwysicaf i chwilio amdano yw hwnnw sydd rhwng yr offer yn stâl y parlwr a'r llawr. Bydd cywiro'r broblem yn arwain at dawelu'r gwartheg a gwella'r llif gwartheg ac ansawdd y llaeth.

Rheoli

Cyffredinol

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 17 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 OS 2007 Rhif 3070 (Cy.264):

- Rhaid i anifeiliaid na chedwir mohonynt mewn adeiladau, pan fo angen a phan fo'n bosibl, gael eu hamddiffyn rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd a chael y cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i ddraenio'n dda.

94. Os nad oes cysgod naturiol neu artiffisial i ddiogelu stoc sy'n pori rhag tywydd eithafol iawn, dylech eu symud i le mwy addas. Mae lloches neu gysgod naturiol gan goed neu berthi yn bwysig yn yr haf am fod gwres yn rhoi straen ar anifeiliaid (yn enwedig ar wartheg llaethog a gwartheg sugno tywyll eu lliw) gan achosi problemau difrifol fel:

- problemau anadlu;
- colli awydd bwyd;
- colli pwysau difrifol; a
- anoestrws (gwartheg yn peidio â gofyn tarw).

95. Pan fydd anifeiliaid allan yn y gaeaf rhaid bod man gorwedd sych ar gael iddynt, a lle medrwch, dylech roi cysgod iddynt mewn tywydd cas.

96. Dylai fod lle sefyll â llawr concridd, neu arwyneb addas wedi'i ddraenio'n dda na fydd yn niweidio'u traed, ar gael i'r gwartheg o gwmpas y cafnau bwyd a dŵr. Bydd yr arwyneb y mae'r anifeiliaid yn cerdded arno i gyrraedd y cafnau hefyd wedi'i draenio'n dda. Neu fel arall, symudwch y cafnau'n aml fel na fydd yr anifeiliaid yn sefyll mewn llaca a baw.

97. Rhaid cymryd pob cam ymarferol i symud yr holl wartheg o ardal sydd ar fin cael llifogydd.

98. Cliriwch unrhyw sbwriel megis weiers a batris (sy'n wenwynig), neu bethau plastig neu fetel pigog a allai anafu'r gwartheg neu rhwygo'u tagiau clust a niweidio'u clustiau, o bob cae ac adeilad ar y fferm.

Ffensys a pherthi/gwrychoedd

99. Dylai ffensys, cloddiau a pherthi/gwrychoedd gael eu cynnal i gael gwared ar unrhyw beth allai fachu am dagiau clust y gwartheg (e.e. ar berthi, clwydi, ffensys neu gafnau bwyd).

100. Gofalwch fod ffensys trydan wedi cael eu dylunio a'u hadeiladu'n briodol a'ch bod yn eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw'n iawn fel bod y fuwch ond yn teimlo ychydig bach o anesmwythyd wrth gyffwrdd â'r ffens. Gofalwch fod pob uned bŵer wedi'i daearu rhag iddi siortio neu rhag i drydan gael ei ddargludo i unrhyw le na ddylai fynd (er enghraifft, i glwydi a chafnau dŵr).

Chwyn niweidiol

101. Mae'n bwysig rheoli chwyn niweidiol gan eu bod nhw'n gallu gwneud drwg i anifeiliaid trwy:

- eu gwenwyno (er enghraifft, llysiau'r gingroen);
- eu hanafu (er enghraifft, ysgall); a
- lleihau'r borfa drwy leihau'r planhigion bwytadwy sydd ar gael.

Cynllun wrth gefn

102. Mae dyletswydd ar berchnogion a cheidwaid anifeiliaid fferm i ofalu am eu hanifeiliaid bob amser ac maen nhw'n cael eu hannog i gadw at y safonau hwsmona gorau posibl. Dylai fod gan bob perchennog gynllun wrth gefn ar gyfer digwyddiadau a allai effeithio ar ei anifeiliaid. Dylai ofalu bod rhywun profiadol neu gymwys ar gael i gymryd ei le i archwilio, bwydo, dyfrio a darparu cysgod i'w anifeiliaid.

Tân ac argyfyngau eraill

103. Dylai fod gan y perchennog neu'r ceidwad gynlluniau i ymdrin ag argyfyngau ar y fferm; megis tân, llifogydd neu ddiffyg cyflenwadau (er enghraifft, dim trydan i odro). Dylai sicrhau bod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

104. Mae'n bwysig cael cyngor dylunio wrth adeiladu neu addasu adeilad. Dylid medru rhyddhau da byw a'u cael allan o'r adeilad yn gyflym os oes argyfwng, er enghraifft, drwy gael drysau a chlwydi sy'n agor at allan. Dylech ystyried gosod larymau tân y bydd rhywun yn gallu eu clywed ac ymateb iddynt ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos.

105. Wrth gadw gwartheg dan do, mae'n bwysig iawn bod y perchennog a'r holl staff yn gwybod beth i'w wneud os bydd yna dân. Mae cyngor arbenigol ar holl ragofalon tân ar gael gan swyddogion atal tân lleol ac oddi wrth y Gymdeithas Atal Tân.

Adran 2 - Argymhellion penodol

Gwartheg cyflo a bwrw lloi

Yn ôl Atodlen 7, paragraffau 1, 2 a 3 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- Pan gedwir gwartheg godro sy'n llaetha neu'n bwrw lloi mewn adeilad, rhaid iddynt allu mynd bob amser i fan gorwedd sydd wedi'i ddraenio'n dda ac sy'n cynnwys gwasarn.
- Rhaid i gorlan neu fuarth mewn adeilad a ddefnyddir ar gyfer gwartheg sy'n bwrw lloi fod o faint sy'n caniatáu i berson ofalu am y gwartheg.
- Rhaid i wartheg sy'n bwrw lloi ac a gedwir mewn adeilad gael eu cadw ar wahân i dda byw eraill, ac eithrio gwartheg sy'n bwrw lloi.

106. Gellir osgoi cyfran helaeth o'r problemau a geir wrth eni lloi a'r colledion a geir, drwy wneud yn siwr bod y gwartheg sy'n bwrw lloi yn y cyflwr iawn a bydd rhoi'r bwyd iawn i'r fuwch tuag at ddiwedd ei thymor yn helpu yn hyn o beth. Dylai gwartheg a threisiedi/heffrod gael tarw o frid addas ac un a chanddo record o roi lloi hawdd eu geni. Dylai ceidwad stoc sy'n gofalu am wartheg sy'n bwrw lloi:

- wybod beth yw'r arwyddion bod buwch ar fin bwrw lloi; a
- bydd wedi'i hyfforddi'n dda i ofalu am wartheg sy'n bwrw lloi ac am eu lloi, gan gynnwys defnyddio offer mecanyddol i helpu buwch i ddod â lloi.

107. Peidiwch ag aflonyddu ar wartheg sy'n bwrw lloi oni bai bod arwyddion nad yw'r broses eni yn mynd rhagddi fel y dylai. Dylai fod gan y fuwch ddigon o le i ymddwyn yn normal. Ni ddylech gadw treisiedi/heffrod gyda buchod hŷn, gan y gall y buchod ddominyddu'r manau bwydo a'r manau gorwedd.

108. Cyn defnyddio offer geni lloi, archwiliwch y fuwch i wneud yn siwr fod y lloi'n dangos yn iawn (h.y. y pen yn gyntaf, y ffordd iawn i fyny rhwng y ddwy droed flaen). Edrychwch nad yw'r lloi yn rhy fawr ar gyfer genedigaeth naturiol, rhag i'r fuwch na'r lloi ddiode'n ddiangen.

109. Os oes unrhyw bryderon am leoliad y lloi neu gallu'r fuwch i fwrw'r lloi yn naturiol, yna cysylltwch â'ch milfeddyg ar unwaith. Ar ôl y geni, dylid trin bogail y lloi gydag antiseptig addas i atal heintiau.

110. Os ydych yn helpu â'r geni, cofiwch fod hylendid yn hanfodol. Rhaid glanhau a diheintio'r offer geni lloi bob tro ar ôl ei ddefnyddio. Defnyddiwch yr offer i helpu â'r geni, nid er mwyn tynnu'r lloi mor gyflym â phosibl. Gofalwch fod y rhaffau tynnu lloi yn ddigon hyblyg a thrwchus i beidio â niweidio'r lloi.

111. Os defnyddir llociau geni, rhaid eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd a rhoi sarn/gwellt glân ynddynt rhwng pob genedigaeth i atal heintiau.

112. Os ydych chi'n cadw gwartheg a'u lloi gyda'i gilydd, dylai'r lloi allu mynd at fan gorwedd gwelltog ar wahân â llawr soled iddo.

113. Ni ddylech fel mater o drefn, ysgogi'r fuwch i fwrw ei llo. Mae yna le i ysgogi er mwyn geni'r llo cyn iddo dyfu'n rhy fawr, ond dim ond gyda chymorth milfeddyg.

Magu lloi

114. Dylai gofalu am loi, yn enwedig lloi sy'n cael eu prynu o nifer o ffynonellau, fod yn rhan o'ch Cynllun Iechyd Anifeiliaid ysgrifenedig. Am fod lloi yn fwy agored i nifer o heintiau, mae hylendid yn hanfodol, yn enwedig gyda'r cyfarpar a ddefnyddir i fagu lloi yn artiffisial.

Archwilio

Yn ôl Atodlen 6, paragraffau 2 a 3 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- Rhaid i bob llo a gedwir mewn adeilad gael ei archwilio gan berchennog neu gan berson arall sy'n gyfrifol am y lloi o leiaf ddwywaith y dydd i sicrhau eu bod mewn cyflwr o lesiant.
- Rhaid i loi a gedwir y tu allan gael eu harchwilio gan berchennog neu gan berson arall sy'n gyfrifol am y lloi o leiaf unwaith y dydd i sicrhau eu bod mewn cyflwr o lesiant.

115. Mae'n arbennig o bwysig cadw golwg gofalus ar loi am arwyddion dolur rhydd neu glefyd anadlu, megis pesychu neu anadlu cyflym neu lafurus. Mae'r ddau'n glefyd heintus iawn. Pan fyddwch yn prynu llo, dylech ei archwilio pan fydd yn cyrraedd, cyn iddo ddod i gysylltiad â lloi eraill ar y fferm. Dylech asesu ei iechyd cyffredinol, gan roi sylw arbennig i'w osgo, ei anadlu a chyflwr ei drwyn, llygaid, bogail, pen-ôl, traed a choesau.

116. Ar ôl ei archwilio'n fanwl, gadewch iddo orffwys mewn lle cysurus am rai oriau ac yna ei fwydo â llaeth neu hylif arall addas, megis diod electrolyd. Os medrwch, dylech ei gadw ar wahân i loi eraill i osgoi croes-heintio.

117. Os bydd lloi yn cael eu magu mewn system sy'n bwydo llaeth iddynt yn artiffisial, dylech eu monitro'n fanwl i weld faint o fwyd y maent yn ei gymryd. Os bydd lloi yn bwyta llai neu'n arafach, mae hyn yn aml yn arwydd cynnar o haint.

Lloi sâl ac anafus

Yn ychwanegol at y darpariaethau a osodir yn Atodlen 1 paragraff 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)), yn ôl Atodlen 1 paragraff 6: -

- pan fo'n angenrheidiol, rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu anafus mewn llety addas, gyda gwasarn cysurus a sych pan fo'n briodol.

118. Dylech ynysu a thrin lloi sâl, er enghraifft, os oes ganddynt ddolur rhydd neu niwmonia. Mae monitro eu tymheredd yn ffordd ddefnyddiol o asesu eu hymateb i driniaeth. Os nad yw'r lloi'n ymateb i driniaeth yn ddiymdroi neu'n briodol neu os yw'r afiechydon hyn yn dychwelyd, bydd angen gofyn i filfeddyg am gyngor.

Bwyd, dŵr a sylweddau eraill

Yn ôl Atodlen 5, paragraff 9 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)) -

rhaid i bob llo gael cynlaeth buchol cyn gynted â phosibl ar ôl ei eni a beth bynnag o fewn y chwe awr gyntaf o'i fywyd.

Yn ôl Atodlen 5, paragraff 10:

- (1) Rhaid darparu bwyd sy'n cynnwys digon o haearn i sicrhau lefel hemoglobin gwaed o 4.5mmol/litr o leiaf ar gyfer pob llo.
- (2) Rhaid darparu lleiafswm o ddogn dyddiol o fwyd ffibraidd ar gyfer pob llo dros 2 wythnos oed, gan gynyddu'r swmp yn unol â thyfiant y llo o leiafswm o 100g pan yw'n 2 wythnos oed hyd at leiafswm o 250g pan yw'n 20 wythnos oed.

Yn ôl Atodlen 6, paragraff 11 ni ddylid safnrwymo llo.

Yn ôl Atodlen 6, paragraff 12:

- (1) Rhaid bwydo pob llo o leiaf ddwywaith y dydd.
- (2) Pan gedwir grŵp o loi mewn adeilad heb gyfle di-dor i gael bwyd, neu pan nad oes system fwydo awtomatig yn eu bwydo, rhaid i bob llo gael mynd at fwyd ar yr un adeg â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo.

Yn ôl Atodlen 6, paragraff 13:

- (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, rhaid darparu swmp digonol o ddŵr yfed ffres ar gyfer lloi bob dydd.
- (2) Rhaid darparu dŵr ffres ar gyfer lloi bob amser -
 - (a) mewn tywydd poeth, neu
 - (b) pan fyddant yn sâl.

119. Mae llaeth tor (cynlaeth) yn hanfodol i ddiogelu'r llo rhag heintiau. Yn ddelfrydol dylai llo gael ei adael gyda'i fam am o leiaf 12 awr neu gwell fyth am 24 awr ar ôl ei eni. Argymhellir, ar ôl ei dynnu oddi ar ei fam, y dylai llo o frîd godro barhau i gael llaeth tor ei fam am dridiau cyntaf ei fywyd. Er hynny, y ffordd orau o wneud yn siwr fod y llo'n cael digon o laeth tor yw drwy adael iddo sugno'n naturiol. Os na all y llo sugno, dylai llaeth tor gael ei roi iddo gan berson wedi'i hyfforddi'n addas, trwy bibell stumog/tiwb cylla. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch swm neu ansawdd llaeth tor y fuwch, dylid bwydo'r llo â llaeth tor o le arall trwy deth neu diwb cylla o fewn chwe awr ar ôl ei eni. Dylech gadw stôr o laeth tor wedi'i rewi neu ar ffurf arall ar y fferm i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

120. Peidiwch â symud y llo cyn ei fod yn 12-24 awr oed oni bai bod milfeddyg yn cynghori hynny at ddiben rheoli heintiau. Dylech gofnodi'r drefn yn y Cynllun Iechyd Anifeiliaid (gweler paragraff 27). Dylech dal i fwydo'r llo â llaeth tor. O dan rai amgylchiadau, er enghraifft wrth reoli clefyd Johnes, gall defnyddio llaeth tor o nifer o anifeiliaid gwahanol hybu heintiau. Felly, i osgoi lledaenu heintiau, dylech ofalu bod pob llo yn cael llaeth tor ei fam yn unig neu os nad yw hyn yn bosibl, llaeth tor un anifail.

121. Gellir cynyddu gwerth y llaeth tor drwy roi brechiad penodol i'r fam neu fuwch y llaeth tor. Mewn gwartheg sy'n godro'n dda, gallai'r gwrthgorffynnau mewn llaeth tor fod yn wanach. Holwch eich milfeddyg am ffyrdd o wella ansawdd llaeth tor i ddiogelu lloi rhag clefydau heintus.

122. Peidiwch â rhoi llaeth o fuwch sydd wedi cael gwrthfotig neu sydd wedi'i thrin am fastitis i lo.

123. Peidiwch â rhoi llaeth o fuwch sydd wedi adweithio neu sydd wedi rhoi canlyniad amhendant i brawf TB gwartheg i lo.

124. Mewn systemau magu artiffisial, mae'n well i'r llo gael ei laeth trwy deth ffug nag yfed llaeth o fwced. Dylai dŵr ffres fod ar gael yn y lloc. Dylai pob llo gael bwyd hylif bob dydd yn ystod pedair wythnos gyntaf ei fywyd, a ph'run bynnag, nes ei fod yn bwyta digon o fwyd soled.

125. Pan fydd llo yn cael llaeth trwy system ar y cyd â lloi eraill, gofalgwch fod digon o dethi i osgoi gorgystadlu. Cadwch olwg ar y lloi i wneud yn siwr eu bod i gyd yn bwyta'n iawn. Dylid cymryd yr un gofal wrth gyflwyno bwyd soled.

126. Wrth ddiddefnu lloi sugno, mae'n bwysig ceisio osgoi unrhyw beth all beri gofid i'r fuwch a'r llo. Cymerwch ofal yn arbennig o loi sydd newydd eu diddefnu. Ni ddylech eu rhoi gyda lloi dieithr rhag iddyn nhw fynd i ymladd a rhag lledaenu heintiau. Os oes yn rhaid cymysgu'r lloi, gwnewch yn siwr nad yw'r amgylchedd yn rhoi straen ar y lloi am fod hyn yn cynyddu'r risg o haint.

127. Rydym yn argymhell eich bod yn diddyfnu lloi sugno pan fyddant rhwng pum mis a naw mis oed, er ei bod yn bosibl eu diddyfnu cyn hynny os yw cyflwr y fuwch wedi dioddef. Rhaid i loi sydd wedi'u diddyfnu'n gynnar allu mynd at borthiant ffres a dwysfwyd addas bob amser. Dylid newid y porthiant bob dydd er mwyn iddo fod yn ffres a blasus.

Llety

Yn ôl Atodlen 6 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264));

- (1) Rhaid peidio â chaethiwo unrhyw lo mewn côr neu gorlan unigol ar ôl wyth wythnos oed oni fydd milfeddyg yn ardystio bod ei iechyd neu ei ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ynysu er mwyn iddo gael triniaeth.
- (2) Rhaid i led unrhyw gôr neu gorlan unigol ar gyfer llo fod o leiaf yn hafal i uchder y llo wrth ei war, a fesurir ar ei sefyll, a rhaid i'r hyd fod o leiaf yn hafal i hyd corff y llo, a fesurir o flaen y trwyn hyd at ben cynffonog y tuber ischii (asgwrn y llosgwrn), wedi'u lluosu â 1.1.
- (3) Rhaid i gorau neu gorlannau unigol ar gyfer lloi (ac eithrio y rhai sy'n ynysu anifeiliaid sâl) gael waliau trydyllog sy'n caniatáu i'r lloi gael cysylltiad uniongyrchol, yn weledol a thrwy gyffwrdd.
- (4) Ar gyfer lloi a gedwir mewn grwpiau, y lwfans gofod dirwyrstr y mae'n rhaid iddo fod ar gael ar gyfer pob llo yw -
 - (a) o leiaf 1.5 m² ar gyfer pob llo gyda phwysau byw llai na 150 kg;
 - (b) o leiaf 2 m² ar gyfer pob llo gyda phwysau byw o 150 kg neu fwy ond llai na 200 kg; ac
 - (c) o leiaf 3 m² ar gyfer pob llo gyda phwysau byw o 200 kg neu fwy.
- (5) Rhaid i bob llo allu sefyll, troi o amgylch, gorwedd, gorffwysu a thacluso'i hun heb rwystr.
- (6) Rhaid i bob llo a gedwir ar ddaliad y cedwir dau neu fwy o loi arno allu gweld o leiaf un llo arall.
- (7) Nid yw is-baragraff (6) yn gymwys i unrhyw lo a gedwir wedi ei ynysu ar ddaliad ar gyngor milfeddygol, neu yn unol ag is-baragraff (1).
- (8) At ddibenion cyfrifo nifer y lloi a gedwir ar ddaliad er mwyn penderfynu a yw is-baragraff (6) yn gymwys, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw lo a gedwir wedi'i ynysu ar y daliad hwnnw ar gyngor milfeddygol neu yn unol ag is-baragraff (1).

Tennynau

128. Ni chaiff unrhyw berson sy'n gyfrifol am lo roi tennyn na pheri rhoi tennyn arno, ac eithrio lloi a gedwir mewn adeilad mewn grŵp y caniateir rhoi tennyn arnynt am gyfnod nad yw'n hwy nag awr tra'n eu bwydo â llaeth neu laeth ffug.

- (2) Pan ddefnyddir tennynau yn unol â'r is-baragraff uchod, rhaid iddynt beidio â pheri poen nac anaf i'r lloi a rhaid eu harchwilio'n rheolaidd a'u haddasu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ffitio'n gysurus.
- (3) Rhaid i bob tennyn fod wedi ei ddylunio i osgoi'r risg o dagu neu achosi poen neu anaf ac i ganiatáu i'r llo orwedd, gorffwys, sefyll a thacluso'i hun heb rwystr.

Goleuo

129. Pan gedwir lloi mewn adeilad â golau artiffisial yna, yn ddarostyngedig i baragraff 5 o Atodlen 6 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (OS 2007) rhif 3070 (Cy.264), rhaid darparu golau artiffisial am gyfnod sydd o leiaf yn hafal i'r cyfnod o olau naturiol sydd ar gael fel arfer rhwng 9.00 am a 5.00 pm.

Glanhau a diheintio

- 130 (1) Rhaid i adeiladau, corau, corlannau, offer a theclynnau a ddefnyddir ar gyfer lloi gael eu glanhau a'u diheintio'n gywir i atal trawsheintio ac i atal organeddau sy'n cario clefydau rhag crynhoi.
- (2) Rhaid i dail, biswail a bwyd sydd heb ei fwyta neu wedi'i golli gael eu symud cyn amled ag y mae angen i leihau'r aroglau ac i osgoi denu pryfed neu gnofilod.

Lloriau

131. Pan gedwir lloi mewn adeilad, rhaid i'r lloriau fod;
- yn llyfn heb fod yn llithrig er mwyn rhwystro anaf i'r lloi;
 - wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal fel na fyddant yn peri anaf na dioddefaint i'r lloi wrth iddynt sefyll neu orwedd arnynt;
 - yn addas ar gyfer maint a phwysau'r lloi; a
 - yn ffurfio arwyneb caled, gwastad a sefydlog.

Sarn (gwellt) a manau gorwedd

132. Rhaid darparu sarn (gwellt) priodol i bob llo orwedd arno.

- rhaid i bob llo gael ei gadw ar fan gorwedd neu rhaid iddo bob amser allu mynd i fan gorwedd sydd yn lân, yn gysurus ac wedi'i ddraenio'n dda ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar y llo.
- rhaid i bob llo a gedwir mewn adeilad a llo a gedwir mewn cytiau neu strwythurau dros dro gael ei gadw ar fan gorwedd, neu rhaid iddo bob amser allu mynd at fan gorwedd, sy'n cael ei gynnal yn dda â sarn (gwellt) sych.

133. Mae ar loi a gedwir dan do angen amgylchedd sydd:

- yn sych;
- wedi'i ddraenio'n dda;
- â digon o sarn/gwellt arno;
- wedi'i awyru'n dda; ac
- yn ddi-ddrafft.

Rhaid fod gan y lloi ddigon o ofod i bob un ohonynt orwedd yn gysurus. Mae lloi ifanc yn hynod agored i niwmonia ac felly mae awyru da'n hanfodol. Ni ddylid cyfyngu ar yr awyru er mwyn cynhesu'r aer.

Dylai lloi sy'n cael eu cadw allan allu mynd at gysgod a gwely sych, di-ddrafft.

134. Nes eu bod yn cael eu diddyfnu, dylai lloi sy'n cael eu cadw o dan do gael eu cadw mewn grwpiau bach er mwyn:

- ichi allu eu harchwilio'n rhwydd; ac i
- gyfyngu ar ledaeniad heintiau.

Er y bydd maint grŵp o loi sugno yn dibynnu ar yr adeilad lle bydd eu mamau'n cael eu cadw, mae'n bwysig eu bod mewn 'teulu' o loi o'r un oedran rhag iddyn nhw gael eu bwlio neu eu hanafu.

135. Ni ddylai llawr yr adeilad lle cedwir lloi ifanc a newydd anedig fod wedi'i wneud yn gyfan gwbl o slatiau. Dylid darparu sarn/gwellt addas o hyd.

Symud a gwerthu lloi

136. Os medrwch, peidiwch â gwerthu lloi ifanc yn y farchnad heb eu mamau. Os ydych yn gwerthu llo mewn marchnad, bod dros chwe diwrnod oed ac rhaid bod y bogail wedi gwella yn llwyr. Dylech drefnu bod lloi yn cael eu symud o fferm i fferm, yn hytrach na thrwy farchnadoedd, er mwyn osgoi trosglwyddo heintiau.

137. Yn ddelfrydol, dylai lloi ifanc sy'n cael eu magu'n artiffisial ddod i gysylltiad ag un ceidwad stoc yn unig.

Anffurfio

Sbaddu

O dan Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (OS 2007/1029), mae'n dramgwydd i sbaddu lloi sydd dros ddeufis oed heb ddefnyddio anestheteg. Ac yn ychwanegol, ni chaniateir defnyddio modrwy rwber, neu ddyfais arall, i gyfyngu ar lif y gwaed i'r ceillgwd, heb anesthetig dim ond os defnyddir y ddyfais yn ystod wythnos gyntaf bywyd y llo.

O dan Ddeddf Milfeddygon 1966, fel y'i diwygiwyd, dim ond milfeddyg gaiff sbaddu llo deufis neu fwy.

138. Dylai ceidwaid stoc bwysu a mesur yn ofalus a oes angen sbaddu (cyweirio) a phun a oes marchnad ar gyfer gwrywod cyfain. Mae tri dull ar gyfer sbaddu lloi:

- modrwy rwber neu ddyfais arall, na ellir ei defnyddio ond yn ystod saith diwrnod cyntaf bywyd y llo, gan geidwad stoc cymwys, i gyfyngu ar lif y gwaed i'r ceillgwd;
- sbaddu di-waed, gan geidwad stoc cymwys wedi'i hyfforddi, drwy falu duthellau spermatig lloi sy'n llai na deufis oed, gyda burdizzo;
- sbaddu llawfeddygol gan filfeddyg, sy'n defnyddio anesthetig.

Dadimpio a digornio

O dan Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (OS 2007/1029), rhaid rhoi anesthetig i lo cyn ei ddigornio. Rhaid i anifail sy'n cael ei ddadimpio fod o dan chwe mis oed. Os y dull serio cemegol a ddefnyddir, rhaid i'r llo fod o dan 7 mis oed. Pan ddefnyddir dull arall, rhaid rhoi anesthetig.

139. Ystyr dadimpio yw tynnu impiadau cynn ar loi, cyn y gellir gweld y corn ei hun. Mae'n well na digornio am ei fod yn achosi llai o loes i'r anifail. Dylai dadimpio ddigwydd cyn bod y llo yn ddeufis oed, ac yn ddelfrydol cyn gynted ag y gwelwch flagur corn. Argymhellwn yn gryf ichi beidio â serio'n gemegol. Stocmon cymwys wedi'i hyfforddi yn unig ddylai dadimpio'r llo a hynny gyda haearn poeth, o dan anesthetig.

140. Mae'n bwysig nad yw digornio'n rhan o'r drefn arferol. Mae'n golygu torri neu lifio cynn a meinweoedd sensitif eraill. Yn ddelfrydol, dylai milfeddyg ei wneud, a wedyn dim ond os yw'n angenrheidiol i les y fuches. Os oes yn rhaid digornio,

dylai gael ei wneud yn y gwanwyn neu'r hydref er mwyn osgoi pryfed a rhew. Ar ôl torri'r corn, rhowch gyffuriau lladd poen i'r anifail yn ôl y gofyn, a diogelu'r clwyf rhag cael ei faeddu, er enghraifft gan hadau porfa, gwair neu silwair, nes bod y twll wedi magu crachen. Gosodwch y cratsh gwair ar lefel fel na fydd gwair yn debygol o gwmpo ar ben yr anifail a baeddu'r clwyf.

141. Dylid wastad roi digon o amser i'r anesthetig weithio cyn dechrau dadimpio neu ddigornio. Rhowch brawf ar hyn drwy bigo'r croen wrth y corn i weld a yw'r anifail yn gallu ei deimlo.

Tethi ychwanegol

O dan Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol 1966 fel y'i diwygiwyd, dim ond milfeddyg gaiff dynnu teth ychwanegol oddi ar lo tri mis oed neu fwy.

- O dan Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (OS 2007/1029), mae'n dramgwydd i dynnu teth ychwanegol oddi ar lo tri mis oed neu fwy heb ddefnyddio anesthetig.

142. Os oes gan anifail dethi ychwanegol (h.y. gormod o dethi) a'ch bod am dynnu'r rhai ychwanegol, dylech wneud hynny pan fydd yn ifanc. Dylai pwy bynnag sy'n gwneud fod yn gymwys ac wedi'i hyfforddi. Cyn gynted ag y bydd yr anesthetig lleol wedi gweithio a bod antiseptig wedi'i roi, dylid tynnu'r tethi ychwanegol gyda siswrn glân a miniog. Dylid stopio unrhyw waedu ar unwaith.

Anifeiliaid magu

Bridio

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 28 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)):

- (1) rhaid peidio â defnyddio bridio naturiol neu artiffisial neu weithdrefnau bridio sy'n peri neu sy'n debygol o beri dioddefaint neu anaf i unrhyw un o'r anifeiliaid o dan sylw.
- (2) Ni fydd is-baragraff (1) yn atal defnyddio gweithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n debygol o beri'r dioddefaint neu'r anaf lleiaf posibl neu am ennyd neu rai a allai beri bod angen ymyriadau na fyddent yn peri anaf parhaol.

Yn ôl Atodlen 1, paragraff 29:

- Rhaid peidio â chadw unrhyw anifeiliaid at ddibenion ffermio oni ellir disgwyl yn rhesymol, ar sail eu genoteip neu eu ffenoteip, y gellir eu cadw heb effaith niweidiol i'w hiechyd neu eu lles.

143. Gofalwch fod treisiedi/heffrod cadw yn tyfu'n raddol ac yn cyrraedd y pwysau targed, fel eu bod, pan fyddant yn bwrw'u lloi, yn barod o ran eu pwysau a'u maint i gael eu gollwng i'r fuches odro. Peidiwch â rhoi tarw iddynt pan fyddant yn rhy fach na rhoi tarw anaddas iddynt na tharw o frîd anaddas. Os bydd hynny'n digwydd, bydd y dreisiad/heffer yn debygol o gael problemau wrth eni'r llo oherwydd ei bwysau neu ei gydffurfiad. Gwnewch bopeth yn eich gallu i ofalu na all paru amhriodol o'r fath ddigwydd trwy ddamwain. Os bydd treisiad/heffer yn cael tarw anaddas, holwch eich milfeddyg i weld beth ddylech ei wneud.

144. Dylech roi blaenoriaeth uchel yn eich polisi bridio i gynnwys rhinweddau a fydd yn gwella lles anifeiliaid. Er enghraifft, ffurf coesau a fydd yn debygol o arwain at lai o gloffni a defnyddio bridiau sy'n famau da i'w bridio gyda'ch gwartheg bîff er mwyn cynhyrchu treisiedi/heffrod fydd yn famau gwell. Ni ddylid bridio o anifeiliaid sydd ag anffurfiadau neu wendidau eraill ynddynt. Defnyddiwch yr anifeiliaid mwyaf dof (lleiaf ymosodol), ac anifeiliaid godro sydd â chyhyrau ac ysgerbydau da (i leihau cloffni). Os medrwch, defnyddiwch wartheg sy'n naturiol foel (h.y. heb gyrn) er mwyn osgoi'r angen i ddadimpio neu ddigornio.

Archwilio

145. Mewn buchesi lle rhoddir tarw potel neu lle yr eir â'r fuwch at y tarw (serfio o dan oruchwyliaeth), mae'n bwysig bod y stocmon yn neilltuo digon o amser i weld arwyddion gofyn tarw yn y fuches, hynny rhag gorfod defnyddio hormonau

a thriniaethau eraill. O leiaf ddwywaith y dydd, dylai'r stocmon fynd i weld y buchod llaetha i weld a oes yna rai sy'n wasod (gofyn tarw) neu ar fin bwrw llo.

Rheoli

146. Mae angen deiet priodol ar fuwch sy'n llaetha er mwyn bodloni ei hangen am faeth, heb niweidio ei chyflwr corfforol a'i metabolaeth. Bydd faint o fwyd y bydd anifail yn ei fwyta yn dibynnu ar faint o fwyd a roddir iddo, ansawdd y bwyd hwnnw, pa mor rwydd yw cael ato, a'r amser a dreulir yn bwyta. Bydd unrhyw beth a all ymyrryd â hyn, megis cloffni, yn cael effaith andwyol ar iechyd a lles yr anifail.

147. Dylid archwilio traed yr holl wartheg yn gyson - gan gynnwys teirw - a'u tocio pan fydd angen. Dylai rhaglen gofal traed y fuches fod yn rhan o Gynllun Iechyd Anifeiliaid ysgrifenedig eich fferm. Mae tocio carnau yn beth da i'r holl wartheg, nid i'r gwartheg cloff yn unig. Dim ond tocwyr sydd wedi cael hyfforddiant priodol ddylai cael tocio carnau. Rhaid rhwymo'r anifeiliaid fel ag sy'n briodol. Mae tocio gwael yn gallu achosi cloffni. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, mynnwch gyngor milfeddyg.

Serfio Naturiol - teirw

148. Os ydych yn cadw tarw ifanc gyda'ch gwartheg i'w cyfloi, cadwch e' mewn grŵp bychan o fuchod (yn ddelfrydol 10-15). Dylid cynnig bwyd ychwanegol yn ôl yr angen.

149. Dylai fod gan bob tarw amodau da a diogel i serfio. Nid yw llawr slatiau na llawr llithrig (er enghraifft, mewn buarth, ciwbiclau a llwybr tramwy) yn addas i darw darwa.

Ffrwythloni artiffisial (tarw potel) (AI) a throsglwyddo embryo

O dan Reoliadau Llawfeddygaeth Filfeddygol (Ffrwythloni Artiffisial) 2007 fel y'u diwygiwyd (a ddaeth i rym ar 3 Tachwedd 2009), dim ond llawfeddyg milfeddyg neu berson sydd wedi cwblhau cwrs a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn llwyddiannus, gaiff cynnal y ffrwythloni artiffisial.

O dan Reoliadau Embryo Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995 (O.S. 1995 Rhif 2478):

Ni cheir casglu embryo ond gan rywun sy'n aelod o dîm casglu embryo wedi'i gymeradwyo ac sy'n gweithredu o dan awdurdod milfeddyg y tîm;

Ni cheir trosglwyddo embryo ond gan filfeddyg neu aelod o dîm trosglwyddo embryo wedi'i gymeradwyo ac sy'n gweithredu o dan gyfrifoldeb milfeddyg y tîm;

Cyn trosglwyddo'r embryo, rhaid archwilio'r fuwch dderbyn yn glinigol gan filfeddyg (o fewn 30 diwrnod cyn trosglwyddo os nad yw'r person sydd i gyflawni'r trosglwyddo yn filfeddyg). Rhaid i'r milfeddyg ardystio bod y fuwch dderbyn yn addas i dderbyn yr embryo, ac nad oes unrhyw reswm ar adeg yr archwiliad i gredu na fyddai'n gallu ei gario hyd ei thymp a bwrw'r llo'n naturiol;

Ni cheir trosglwyddo embryo a chasglu embryo ond os cafodd yr anifail o dan sylw anesthetig priodol (epidwrol fel arfer);

Ni cheir rhoi anesthesia epidwrol ond gan filfeddyg, neu gan rywun sydd wedi'i hyfforddi ac sy'n gweithredu o dan yr amodau a nodir yn Erthygl 3 o Orchymyn Llawfeddygaeth Milfeddygol (Anesthesia Epidwrol) 1992 (O.S. 1992 Rhif 696).

150. Cadwch y fuwch mewn lle cyfarwydd iddi tan ei bod yn amser ei ffrwythloni. Wedyn ewch â hi i stâl addas gerllaw iddi allu cael ei ffrwythloni ar unwaith. Peidiwch â'i gadael yn y stâl ffrwythloni am fwy nag sydd raid.

151. Rhaid trosglwyddo embryo (trawsblannu embryo o un fuwch i groth buwch faeth) yn unol â Rheoliadau Embryo Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995. Dim ond milfeddyg sy'n cael casglu neu drosglwyddo embryo trwy ddulliau llawfeddygol. Ni ddylai fod yn rhan o drefn hwsmona arferol y fuches, ond dylid ei defnyddio os nad yw'n bosibl casglu neu drosglwyddo embryo fel arall.

152. Dylai'r fuwch faeth (y fuwch sy'n derbyn yr embryo) allu cario'r embryo hwnnw hyd at ei hamser a bwrw'r llo yn y ffordd arferol, heb fod angen triniaeth Gesaraidd. Ni ddylai geni Cesaraidd fod yn fater o drefn.

Sganio uwchsain

153. Mae sganio uwchsain drwy ben-ôl anifail yn waith ymyrrol y mae angen sgil a hyfforddiant i'w wneud. Dylai'r sganiwr fod yn gymwys a bydd wedi cael hyfforddiant.

Llociau teirw

154. Ni ddylid esgeuluso lles teirw. Dylech gadw teirw bridio, os medrwch, gyda gweddill y stoc, er enghraifft buchod sych. Dylech leoli llociau teirw fel bod y tarw yn gallu gweld a chlywed gweithgaredd y fferm. Fel canllaw, dylai lloc tarw llawndwf o faint cyfartalog gynnwys man gorwedd sydd o leiaf 16m² o faint. Ar gyfer tarw

sy'n pwysu dros dunnell, dylai fod ganddo o leiaf 1m² o fan gorwedd am bob 60 kg o bwysau byw. Os na chaiff y tarw ymarfer corff rheolaidd y tu allan i'r lloc tarw - neu os defnyddir y lloc tarw fel y man serfio - dylai'r lloc gynnwys man ymarfer sydd o leiaf ddwywaith cymaint â'r man gorwedd.

155. Dylai fod cyfleusterau yn y lloc a'r man ymarfer i ddal y tarw'n ddiogel gydag iau neu ddyfais debyg. Hyn er mwyn ichi allu gofalu amdano (megis glanhau'r lloc) a'i drin pan fydd angen.

Buchod godro

Cyffredinol

156. Argymhellir cofnodi faint o laeth y mae pob buwch odro'n ei gynhyrchu o leiaf unwaith y mis, a'i gymharu â lefelau cynhyrchu arferol y fuches. Gellir defnyddio'r ffigurau hyn a data arall sydd ar gael fel offeryn rheoli i nodi problemau lles posibl yn fuan.

157. Pan gynigir dwysfwyd sych ar ei ben ei hun i wartheg godro, peidiwch â rhoi mwy na 4 kg ar y tro. Hyn er mwyn lleihau'r risg o asidosis y boten (h.y. gormod o rawn yn y blaengylla sy'n arwain at broblemau traul) ac anhwylderau metabolig eraill. I wneud yn siwr fod gan yr anifeiliaid ddigon i'w fwyta, dylai fod porthiant addas neu swmpfwydydd ar gael yn ddiodyn amdano bob amser. Dylid codi hen fwyd neu fwyd dros ben bob dydd.

158. Dylid dod â threisiedi/heffrod i'r fuches odro o leiaf bedair wythnos cyn iddynt fwrw llo, er mwyn iddynt gael amser i gynefino â lle newydd ac anghyfarwydd - gan gynnwys y parlwr godro.

159. Os cyflwynir gwartheg o botensial genetig uchel i'r fuches odro (h.y. gwartheg a gafodd eu bridio i odro'n dda), bydd angen cyngor arbenigol ar faethiad arnoch. Mae mewnbwn uchel o fwyd ac allbwn uchel o laeth yn gallu cynyddu'r risg o'r canlynol:

- mastitis;
- cloffni;
- methu â chyfloi neu gario llo am ei dymor; ac
- anhwylderau metabolig.

Mae angen safon uwch o reoli a maethu ar yr anifeiliaid hyn er mwyn cynnal safon les foddhaol.

Godro

160. Peidiwch byth â gadael buwch odro sy'n llaetha heb ei godro neu â'i chadair/pwrs yn orlawn. Dylai pwy bynnag sy'n godro gwartheg - gan gynnwys godrwr cyflenwi - fod yn gymwys i wneud holl elfennau'r broses odro. Yn ddelfrydol, dylai'r godrwr gael ei hyfforddi'n ffurfiol, a ddylai gynnwys cyfnod o dan oruchwyliaeth lawn godrwr cymwys, wedi'i hyfforddi.

161. Mae peiriant godro sy'n gweithio'n iawn yn hanfodol ar gyfer:

- cysur y fuwch;
- sicrhau'r mwyaf o laeth; ac
- iechyd y gadair/pwrs.

162. Yn ystod pob sesiwn odro, gallwch gynnal archwiliadau syml (megis lefel gwactod y pwmp) a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd i wneud yn siwr fod y peiriant godro'n gweithio'n iawn.

163. Os oes angen, dylid newid y peiriant godro rhag anafu'r tethi ac i sicrhau bod yr amrywiadau cylchol yn y gwactod yn aros o fewn yr ystod a argymhellir. Gall hyn olygu cyngor arbenigol.

164. Dylid cynnal profion annibynnol ar systemau godro newydd neu rai wedi'u hailwampio i sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr a safonau'r 'British Standard for milking machine installations'.

165. Dylai asesydd cymwys wedi'i hyfforddi gynnal o leiaf un asesiad llawn o'r peiriannau bob blwyddyn, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn ac i'w trwsio neu eu haddasu os oes angen.

166. Cadwch eich gwartheg i aros cyn lleied ag y medrwch ar gyfer eu godro. Dylai'r manau sefyll mewn parlwr fod yn ddigon mawr ar gyfer y gwartheg sy'n cael eu godro ac iddyn nhw allu mynd a dod i'r parlwr yn hawdd gyda chyn lleied o drafferth â phosibl. Dylai'r drysau i mewn ac allan i'r parlwr, lle mae gwartheg yn tueddu casglu, fod yn ddigon llydan i'r anifeiliaid allu mynd trwyddynt yn rhwydd ar loriau anllithrig.

167. Pan ddefnyddir clwydi awtomatig mewn buarthau casglu, dylen nhw annog y gwartheg godro i fynd tuag at y parlwr, heb aflonyddu arnyn nhw. Ni ddylai'r clwydi hyn roi sioc drydan.

Godrwyr robot

168. Dylid edrych ar odrwr robot fel ffordd i leihau neu ddiddymu costau llafur ac ni wnaiff unrhyw beth gymryd lle stocmon da. O leiaf ddwywaith y dydd, dylid asesu'r system robotig a chymryd camau priodol o ran y canlynol:

- gwartheg nad ydynt yn mynd i'r man godro;
- atodion yn methu;
- godro anghyflawn;
- gostyngiad yn y cynnyrch llaeth;
- larymau yn canu ar gyfarpar synhwyro i ddarganfod elfennau annormal yn y llaeth, gan gynnwys mastitis.

Gellir cael copïau o'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim os ydynt ar gael, oddi wrth:-

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Swyddfa'r Prif Filfeddyg
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3059

I gael gwybodaeth bellach ar adnabod gwartheg a symud gwartheg cysylltwch â:

Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain
BCMS
Curwen Road
Workington
Cumbria
CA14 2DD
Llinell gymorth: 0845 0501234
E-bost: ctsonline@bcms.defra.gsi.gov.uk

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth neu gyngor pellach am y Cod hwn, cysylltwch â'r tîm Lles a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid drwy ffonio 029 2082 3059. www.cymru.gov.uk/llesanifeiliaid